Mehefin 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2016-17

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac mae'n cynnwys materion fel y'i cyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos y canlynol yn ystod 2016-17:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer y flwyddyn o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, heb unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwaith a gynlluniwyd; ac
- mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun ar gyfer 2016-17 wedi'u cyflawni i raddau helaeth.

Mae'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 wedi cael eu paratoi gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac ar ffurf a gyfarwyddwyd gan y Trysorlys.

Os oes angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

24 HEOL Y GADEIRLAN

CAERDYDD

CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | www.archwilio.cymru |
| Twitter | @WalesAudit |


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

# CIPOLWG AR Y FLWYDDYN



**Ebrill**

Wedi cynnal ein cynhadledd gyntaf i bob aelod o staff ers 2015, gan ganolbwyntio'n benodol ar drawsnewid ein dull archwilio.

**Mai**

Wedi crynhoi'r themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg drwy'r adolygiadau lleol o apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, sy'n faes sy'n peri heriau i bob un o'r saith bwrdd iechyd.





**Mehefin**

Wedi cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon pob un o gyrff y GIG yng Nghymru ac wedi asesu pa mor effeithiol y maent yn adrodd ar berfformiad i'w byrddau.

**Gorffennaf**

Wedi sefydlu bod buddsoddiad diweddar Llywodraeth Cymru wedi gwella mesurau amddiffyn arfordirol ac wedi arwain at rai manteision ehangach.





**Awst**

Wedi llunio canllawiau sy'n helpu aelodau byrddau'r GIG i gael sicrwydd bod eu bwrdd yn ateb y galw am wasanaethau orthopedig yn effeithiol.

**Medi**

Wedi dod i'r casgliad bod perfformiad masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau wedi gwella ers 2006, er bod cymariaethau â gwasanaethau trên eraill yn y DU yn dangos perfformiad cymysg.





**Hydref**

Wedi nodi bod blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o ran diogelwch cymunedol yn amrywio'n fawr, sy'n peri'r risg o ddryswch a gweithredu digyswllt.

**Tachwedd**

Wedi sefydlu nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynhyrchu cymaint o incwm o daliadau am wasanaethau ag awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban.





**Rhagfyr**

Wedi nodi bod y Llyfrgell Genedlaethol wedi gwella agweddau pwysig ar ei threfniadau llywodraethu a rheoli, ond bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y Llyfrgell yn gynaliadwy.

**Ionawr**

Wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ddull strategol effeithiol o weithio gyda'r trydydd sector.





**Chwefror**

Wedi dod i'r casgliad y byddai trefniadau cyllido a goruchwylio Llywodraeth Cymru ar gyfer colegau addysg bellach yn elwa ar ddull gweithredu tymor hwy a mwy integredig.

**Mawrth**

Wedi nodi bod cyrff llywodraeth leol Cymru wedi gwella ansawdd eu datganiadau ariannol, ond eu bod yn wynebu heriau i lunio'r cyfrifon yn gynharach.



# CYNNWYS A'R CANLLAW I DDARLLENWYR

## ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Adolygiad o waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016-17, gan gynnwys dadansoddiad o'n cyflawniadau a'n perfformiad, a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn


### Trosolwg 9

Crynodeb o bwy ydym ni, yr hyn a wnawn, y prif risgiau sy'n ein hwynebu a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Datganiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd 9

Pwy ydym ni a sut rydym yn gweithredu 11

Yr hyn a wnawn 12

Ein nod a'n hamcanion 13

Y prif broblemau a risgiau sy'n ein hwynebu 14

Dangosyddion perfformiad 15

### Dadansoddi perfformiad 19

Asesiad o'r graddau y mae'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yng Nghynllun Blynyddol 2016-17 wedi'u cyflawni

Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol 20

Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG 22

Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog 24

Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 27

Cyfnewid arfer da 29

Ymgysylltu a chydweithio 31

Ein trefniadau llywodraethu ac arwain 33

Ein defnydd o adnoddau 34


## ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

Datganiadau ac adroddiadau allweddol sy'n ein galluogi i fodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth ag arfer llywodraethu corfforaethol da


### Adroddiad ar drefniadau llywodraethu corfforaethol 48

Esboniad o gyfansoddiad a threfniadaeth ein strwythurau llywodraethu a'r ffordd y maent yn helpu i gyflawni ein nod a'n hamcanion

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 48

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 53

Datganiad llywodraethu 55

Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff 69

Ein polisi ar gydnabyddiaeth, ynghyd â manylion cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Pwyllgor Rheoli, ein datgeliad cyflog teg ac adroddiad ar staffio

Adroddiad ar gydnabyddiaeth 69

Adroddiad staff 78

Alldro adnoddau ac adroddiad yr archwilydd 85

Ein crynodeb o alldro adnoddau, trosolwg o dueddiadau yn ein gwariant hirdymor, ac adroddiad yr archwilydd annibynnol, gan gynnwys ei farn ar y datganiadau ariannol, rheoleidd-dra a materion eraill

Crynodeb o alldro adnoddau a nodiadau cysylltiedig 85

Tueddiadau gwariant hirdymor 88

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 89

DATGANIADAU ARIANNOL

Datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â nodiadau ategol ac esboniadol

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr 93

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol 94

Datganiad o Lifau Arian Parod 95

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 96

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol 97

Rhestr termau 114

ATODIADAU

Atodiad 1 - Rhaglenni gwaith a gyflwynwyd yn ystod 2016-17 117

Atodiad 2 - Cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd 123

# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

## ADOLYGIAD O WAITH YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL A SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU YN 2016-17, GAN GYNNWYS DADANSODDIAD O'N CYFLAWNIADAU A'N PERFFORMIAD, A'N SEFYLLFA AR DDIWEDD Y FLWYDDYN

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
8 Mehefin 2017

# TROSOLWG

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol



Diolch i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled staff a chontractwyr Swyddfa Archwilio Cymru, yn 2016-17 gwnaethom lwyddo i gyflawni'r rhaglen gyfan o waith archwilio a osodwyd yn ein Cynllun ar gyfer y flwyddyn. Rydym wedi cynnwys detholiad o astudiaethau achos yn yr Adroddiad hwn er mwyn rhoi blas o'r ystod eang o waith rydym wedi bod yn ei wneud, a'r cyfraniad sylweddol y mae'r gwaith hwnnw wedi'i wneud o ran dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif a gwella'r gwaith o lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'n blaenoriaethau tymor hwy ar gyfer gweddnewid y ffordd rydym yn cyflawni ein rhaglen archwilio ac, mewn rhai achosion, rydym wedi cwblhau'r gwaith sy'n ofynnol ar gyfer y blaenoriaethau hynny. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu a threialu dull gweithredu newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer ardystio grantiau, gwella'r ffordd rydym yn defnyddio data a thechnoleg i ategu ein gwaith, a datblygu dulliau gweithredu sydd â'r nod o sicrhau y gallwn fodloni terfynau amser cynharach y Llywodraeth ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon llywodraeth leol.

Drwy weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru, gwnaethom sefydlu'r Fenter Datblygu Sgiliau Cyllid, sy'n ceisio gwneud cyllid cyhoeddus yn ddewis gyrfa mwy deniadol i raddedigion. Roedd yn braf gweld ein gwaith yn y maes hwn yn cael cydnabyddiaeth genedlaethol pan enillodd y Fenter un o Wobrau Arloesedd Cyllid Cyhoeddus y DU 2017.

Hefyd, tua diwedd y flwyddyn gwnaethom ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol ynghylch dadansoddiad o'n hamgylchedd gweithredu yn y dyfodol a'n cynigion ar gyfer sut y dylem ymateb. Rydym wedi defnyddio eu hadborth wrth gwblhau ein strategaeth derfynol ar gyfer 2017-2020. Un elfen allweddol yn y maes hwn fydd cydweithio â'r cyrff a archwilir gennym i dreialu dull gweithredu addas ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau yn effeithiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Datganiad gan y Cadeirydd



Roedd 2016-17 yn flwyddyn wych o ran perfformiad sefydliadol Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer dwy ran o dair o'r 35 o ddangosyddion perfformiad a oedd gennym, gan ragori ar y targedau hynny mewn llawer o achosion, ac roeddem yn agos at gyflawni ein targedau ar gyfer chwe dangosydd arall. Bydd ein perfformiad yn erbyn y dyrnaid o ddangosyddion pwysig sydd ar ôl, gan gynnwys rhai sy'n cyfeirio'n benodol at ein gwaith parhaus o ran diwylliant, yn ganolbwynt ar gyfer 2017-18. Lle y gwnaethom gyflawni ein targedau yn gyfforddus, rydym wedi pennu nodau mwy heriol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd risgiau strategol eu rheoli'n dda, a daeth gwerthusiad annibynnol i'r casgliad bod gennym Fwrdd effeithiol sydd â digon o adnoddau ac sy'n goruchwylio'r agweddau strategol a gweithredol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn dda.

O edrych ymlaen, y brif her i'r Bwrdd nawr yw rhoi cyngor ar newidiadau strategol a'u goruchwylio er mwyn ysgogi gwelliannau pellach o ran perfformiad ac effaith y sefydliad, yn enwedig yn sgil y newidiadau sydd ar fin digwydd i'n hamgylchedd gweithredu.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y risgiau posibl i'w effeithiolrwydd wrth i gyfnod penodiadau'r rhan fwyaf o'r aelodau anweithredol a'i aelodau etholedig sy'n gyflogeion ddod i ben yn ystod 2017 a 2018. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau nad yw'r momentwm sylweddol y mae'r Bwrdd wedi'i feithrin ers iddo gael ei sefydlu yn 2013 yn cael ei golli, a bod trefniadau addas ar waith i sicrhau cyfnod pontio effeithiol.

Fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18, rydym bellach yn y broses o gwblhau cynigion ar gyfer symleiddio trefniadau cyllido Swyddfa Archwilio Cymru a'u gwneud yn fwy costeffeithiol. Cyn bo hir byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch ein cynigion drafft ac yn cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw i'r Pwyllgor Cyllid.

**Isobel Garner**
Cadeirydd, ar ran Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

# Pwy ydym ni a sut rydym yn gweithredu


Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo elfennau sylweddol o'r arian hwn i'r GIG a llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi staff â chymwysterau proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol gan gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi 253 o aelodau o staff ar 31 Mawrth 2017.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru i ystyried yn annibynnol a yw arian cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei reoli'n ddoeth ac y rhoddir cyfrif amdano'n briodol.

## Ein Gwerthoedd



## Yr hyn a wnawn

### MAE ARCHWILIADAU YN Y SECTOR CYHOEDDUS YN CYNNWYS:

- RHOI BARN AR Y CYFRIFON
- YSTYRIED A YW ARIAN CYHOEDDUS YN CAEL EI DDEFNYDDIO AT DDIBENION CYMERADWY (RHEOLEIDD-DRA)
- YSTYRIED SUT MAE BUSNES CYHOEDDUS YN CAEL EI GYNNAL (PRIODOLDEB)
- ARCHWILIO A OES TREFNIADAU PRIODOL AR WAITH I SICRHAU GWERTH AM ARIAN

Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni rhaglen helaeth ond cymesur o waith archwilio allanol, gan ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, ochr yn ochr â swyddogaethau penodol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn ei raglen er mwyn iddo allu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw faterion yr ydym yn dod ar eu traws drwy ein gwaith archwilio neu sy'n cael eu dwyn i'w sylw.

Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn gymwys i wahanol fathau o gyrff, er mwyn ystyried gwariant cyhoeddus ni waeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau. Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18 yn rhoi mwy o wybodaeth am sut rydym yn dilyn hynt arian cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn cyflawni ein gwaith yn unol â Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n nodi'r arfer proffesiynol gorau ym marn yr Archwilydd Cyffredinol.

Rydym yn nodi arfer da o holl waith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ac yn ei ledaenu drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da (adnodd ar-lein am ddim) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau a gweminerau dysgu ar y cyd.

## Ein nod a'n hamcanion

Ein nod yw sicrhau bod pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod a yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu rheoli'n ddoeth.


Mae ein tri amcan cyntaf yn canolbwyntio ar gyflawni nod triphlyg gwaith archwilio, yn ein barn ni – sef rhoi sicrwydd, rhoi cipolwg a hyrwyddo gwelliannau.

Mae ein pedwerydd amcan yn ategu'r tri cyntaf fel a ganlyn: er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaeth archwilio o safon uchel, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad uchel ei barch a redir yn dda ac sy'n sicrhau gwerth am arian ac yn cynnig amgylchedd gwaith ysgogol a buddiol.

Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ar y cyd a'i osod gerbron y Cynulliad.

Roedd y Cynllun yn nodi rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2016-17, yr adnoddau oedd ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, a sut y dylid defnyddio'r adnoddau hynny i ymgymryd â'r rhaglenni gwaith.

## Gwneud i arian cyhoeddus gyfrif



# Y prif broblemau a risgiau sy’n ein hwynebu

Fel y nodir yn fanylach yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017-18, yn ein barn ni, y ffactorau canlynol yw’r rhai a fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar y ffordd y byddwn yn gwneud ein gwaith ac yn cyflawni ein nod a’n hamcanion dros y tair blynedd nesaf:

- Rydym yn dal i fod mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol
- Mae bellach yn ofynnol i drefniadau llywodraethu fod â chwmpas ehangach
- Mae’r dirwedd wleidyddol a’r dirwedd bolisi yn parhau i ddatblygu
- Rydym yn byw mewn cymdeithas fwyfwy rhwydweithiol

Mewn ymateb i’n hamgylchedd gweithredu, mae pum thema strategol lefel uchel yn ategu ein Cynllun ar gyfer cyflwyno ein rhaglenni gwaith yn ystod 2017-18, ac ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2017 a 2020.

Llunio adroddiadau awdurdodol ynghylch p’un a yw cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy

Cefnogi rheolaeth ariannol gadarn yn y sector cyhoeddus mewn cyfnod o galedi

Defnyddio data yn fwy effeithiol a manteisio ar dechnoleg arloeso

Symleiddio ein prosesau busnes ac atgyfnerthu ein trefniadau llywodraethu

Adolygu ac addasu ein dull archwilio

Mae’r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys cyfrif o’n trefniadau rheoli risg yn 2016-17, ynghyd â disgrifiad o’r prif risgiau ac ansicrwydd sy’n ein hwynebu.

## Dangosyddion perfformiad

Cafodd fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol, yn canolbwyntio ar saith thema a chwestiynau am ein gweithgareddau, ei gynnwys yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17. Hefyd, cafodd cyfres o dargedau eu datblygu gan gyfeirio at lefelau perfformiad ar ddiwedd 2015-16 a meincnodau priodol.

Yn ystod 2016-17, gwnaethom ddefnyddio cymysgedd o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur ein perfformiad a'n risgiau ac adrodd a myfyrio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau chwarterol i'n Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein blaenoriaethau a thargedau. Gwnaethom graffu ar ein cyfres o dargedau a'u mireinio ymhellach yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn ddigon heriol ond bod modd eu cyflawni o fewn y terfynau amser penodedig.

Ar y cyfan, yn 2016-17, gwnaethom gyflawni ein targedau ar gyfer 24 allan o'r 35 o ddangosyddion perfformiad, ac roeddem yn agos i gyflawni ein targedau ar gyfer pum dangosydd arall. Bydd gwaith gwella yn ystod 2017-18 yn canolbwyntio'n benodol ar wella ein perfformiad yn erbyn y chwe dangosydd sy'n weddill.

### Effaith

I ba raddau y mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?

**98%**
o'n **hargymhellion** wedi'u **derbyn yn llawn** i'w gweithredu

**80%**
o randdeiliaid wedi meithrin dealltwriaeth ddefnyddiol drwy ein gwaith

**98%**
o randdeiliaid o'r farn bod yr Archwilydd Cyffredinol yn **sylwedydd awdurdodol**

**£18.3m**
o **arbedion posibl** wedi'u nodi drwy ein gwaith

**79%**
o randdeiliaid o'r farn bod ein gwaith wedi arwain at **welliannau i wasanaethau cyhoeddus**

Cyflawnwyd ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwelliant sylweddol

## Cyflawni

A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau ar amser ac yn unol â safonau ansawdd a phroffesiynol gofynnol?

**100%**
o'n ceisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymruwedi'u **prosesu o fewn 24 awr**

**92%**
o gynhyrchion archwilio wedi'u **cyflawni ar amser**

**100%**
o archwiliadau wedi'u cyflawni yn unol â **safonau ansawdd**

**20**
o gynhyrchion **arfer da** wedi'u cyflawni

**18**
o **adroddiadau cenedlaethol** wedi'u cyhoeddi

## Arweinyddiaeth

A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithredu'n effeithiol?

**97%**
o randdeiliaid wedi dweudbod ganddynt **hyder yn ein gwaith**

**99%**
o staff yn cytuno bod eu **perfformiad yn cael ei werthuso'n deg**

**68%** o staff yn teimlo eu bod yn cael eu **cynorthwyo i roi cynnig ar syniadau a dulliau gweithio newydd**

**80%** o staff o'r farn ein bod yn **ymddiried** ynddynt i wneud eu gwaith yn **effeithiol**

**69%** **o staff o'r farn eu bod yn rhan** o'n dulliau gweithredu strategol

Cyflawnwyd ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwelliant sylweddol

## Ariannol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein cyllid a'n hasedau?

**£3,072**
**cost ystad** fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn

**77%**
o **gyflenwyr wedi'u talu o fewn 10 diwrnod** i dderbyn anfoneb

**£1.7m**
o arbedion cost neu incwm ychwanegol wedi'u nodi drwy'r busnes cyfan

**0.9%**
yw'r amrywiant rhwng **gwariant blynyddol** a'r **gyllideb**

**£203k**
o **hen ddyledion** dros 60 diwrnod oed

## Cymdeithasol

Pa mor dda rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb, lles a dysgu?

**76%**
o staff o'r farn eu bod yn gallu **achub ar gyfleoedd dysgu priodol**

**70%**
o staff o'r farn eu bod yn cael eu **trin yn deg ac â pharch**

**71%**
o staff o'r farn eu bod yn gallu taro **cydbwysedd da rhwng bywyd preifat a gwaith**

**6.5**
**diwrnod** wedi'u colli yn sgil absenoldeb oherwydd **salwch** fesul aelod o staff

**1**
gŵyn wedi'i derbyn a'i chadarnhau o ran ein darpariaeth **Gymraeg**

Cyflawnwyd ein targed · Yn agos at gyflawni ein targed · Angen gwella · Angen gwelliant sylweddol

## Amgylcheddol

Pa mor dda rydym yn rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd?

Achrediad
**Lefel 4**
**Safon Amgylcheddol**
y Ddraig Werdd

Cynhyrchu
**484**
**tunnell** o **allyriadau**
sy'n cyfateb i $CO_2$

**67%**
o'n gwastraff wedi'i
**ailddefnyddio, ei**
**ailgylchu neu ei gompostio**

Defnyddio
**1,725**
o rimiau o **bapur**

Cynhyrchu
**39**
tunnell o **wastraff**

## Cyfathrebu

Pa mor dda rydym yn codi ymwybyddiaeth o’n gwaith ac yn ennyn diddordeb ynddo?

**1,126** o **bobl**
**yn bresennol**
yn ein **seminarau**
**dysgu ar y cyd**

**99%** o **erthyglau**
**yn y cyfryngau** wedi'u
cyhoeddi am ein gwaith
o **safbwynt cadarnhaol**
**neu niwtral**

**54** Sgôr Klout,
sy'n adlewyrchu ein
**cyrhaeddiad o ran y**
**cyfryngau cymdeithasol**

**Gwahoddwyd** staff i
**gyflwyno** gwersi a
ddysgwyd o waith archwilio
mewn **27 o gynadleddau**
**a digwyddiadau**

**188k**
o **ymweliadau â**
**thudalennau** ar y wefan

Cyflawnwyd ein targed | Yn agos at gyflawni ein targed | Angen gwella | Angen gwelliant sylweddol


# DADANSODDI PERFFORMIAD

Yn yr adran hon, rydym yn asesu i ba raddau y mae'r rhaglenni gwaith a'r blaenoriaethau tair blynedd a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17 wedi'u cyflawni, gan gynnwys drwy ddefnyddio enghreifftiau o astudiaethau achos.

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r canlynol:

- Atodiad 1, sy'n rhoi mwy o fanylion am raglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio a gyflawnwyd yn 2016-17; ac
- Atodiad 2, sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y cynnydd rydym wedi'i wneud tuag at gyflawni ein blaenoriaethau tair blynedd.

Yn unol â'n Cynllun, rhennir ein dadansoddiad yn wyth adran sy'n cyd-fynd â'n hamcanion. Mae'r chwe adran gyntaf yn ymwneud â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy adran arall yn ymwneud â rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.




Yn 2016-17, gwnaethom lwyddo i gyflawni'r rhaglen waith a osodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer y flwyddyn. Rydym ar y trywydd cywir hefyd i gyflawni pob un o'n blaenoriaethau tair blynedd (ac, mewn rhai achosion, rydym eisoes wedi cwblhau'r gwaith angenrheidiol arnynt).



## Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol

| Wedi rhoi bron **800** o farnau archwilio ariannol ar gyfrifon cyrff llywodraeth leol | Wedi cynnal asesiadau gwella blynyddol ym mhob un o'r **28** o awdurdodau gwella | Wedi datblygu a threialu dull **newydd** o ardystio grantiau, sy'n seiliedig ar ganlyniadau | Wedi ardystio 21 o gynlluniau grant sy'n werth bron **£3 biliwn** | **Pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith archwilio llywodraeth leol naill ai wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir |
|---|---|---|---|---|

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr yr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned.

Yn ystod 2016-17, cafodd ein gwaith ym maes archwilio cyfrifon, ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau, archwiliadau ac asesiadau gwella, ac astudiaethau llywodraeth leol, ei gwblhau yn unol â’n Cynllun.

## Astudiaeth achos: Cau cyfrifon yn gynharach yng Nghynghorau Wrecsam a Sir Benfro

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i gyrff llywodraeth leol baratoi eu cyfrifon blynyddol erbyn diwedd mis Mehefin a chyhoeddi fersiynau archwiliedig erbyn diwedd mis Medi bob blwyddyn. Erbyn 2020-21, caiff y terfynau amser hyn eu dwyn ymlaen ddau fis i fis Mai ar gyfer cyfrifon blynyddol a mis Gorffennaf ar gyfer fersiynau archwiliedig. Mae newid yn llwyddiannus i'r amserlen ddiwygiedig hon yn her sylweddol i archwilwyr a chyrff llywodraeth leol.

Cyflawnwyd treial cychwynnol yng Nghyngor Sir Bwrdeistref Torfaen yn 2015-16 â'r bwriad o sicrhau ein bod yn bodloni'r terfynau amser cynharach. Yn 2016-17, cyflawnwyd treialau ychwanegol yng Nghyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam a Chyngor Sir Penfro â'n timau archwilio ariannol yn y Gogledd a'r Gorllewin, gan gydweithio â swyddogion o'r ddau gyngor. Yn gyffredinol, bu'r cynlluniau peilot yn llwyddiannus a chafodd y ddwy set o gyfrifon ar gyfer 2015-16 (ynghyd â rhai Cyngor Torfaen) eu paratoi a'u harchwilio erbyn diwedd mis Gorffennaf 2016, rhyw wyth wythnos yn gynharach na'r flwyddyn flaenorol

Yn ganolog i lwyddiant y cynlluniau peilot hyn roedd gwaith cynllunio cadarn a thrafodaethau agored ac adeiladol rhwng y timau archwilio a chyllid. Gan geisio osgoi unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl, cafodd cerrig milltir allweddol eu nodi a'u monitro a chydymffurfiwyd â hwy. Yn ogystal, cafodd unrhyw broblemau a ddaeth i'r amlwg eu datrys cyn gynted â phosibl. Roedd rôl y Pwyllgorau Archwilio yn y ddau leoliad yn hollbwysig hefyd er mwyn sicrhau ymrwymiad y Cynghorau a dwyn swyddogion ac archwilwyr i gyfrif.

Mae'r terfynau amser cynharach ar gyfer cau cyfrifon yn newydd i ni gyd. Bydd ein timau archwilio lleol yn parhau i weithio gyda'r tri Chyngor peilot yn 2017-18 er mwyn gwneud rhagor o welliannau i'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon. Er mwyn ceisio gwneud paratoadau i gau cyfrifon yn gynharach mewn Cynghorau eraill, rhannodd y timau archwilio a'r swyddogion cyllid a gymerodd ran yn y cynllun peilot eu profiadau gyda swyddogion o gynghorau eraill mewn seminarau dysgu a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a Llanrwst ym mis Tachwedd 2016.





## Gwaith archwilio yng nghyrff y GIG

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wedi cyhoeddi adroddiadau ar gyfrifon pob un o'r **10** bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedol-aethau'r GIG | Wedi cyflawni **asesiadau strwythuredig** blynyddol a gwaith archwilio perfformiad lleol | Wedi tynnu sylw at y ffaith y gellid arbed dros **£8 miliwn** drwy arferion rhagnodi gwell | Wedi nodi **1,100 o oriau** a gollwyd mewn amser theatr, a hynny mewn dim ond dau fwrdd iechyd dros gyfnod o ddeufis | **Pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith archwilio'r GIG naill ai wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir |

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol o fewn GIG Cymru yn cwmpasu pob un o'r saith bwrdd iechyd lleol a thair Ymddiriedolaeth y GIG, yn ogystal â gwaith Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2016-17, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei farn archwilio ar gyfrifon pob un o gyrff y GIG ar gyfer 2015-16, a chyhoeddodd adroddiadau ar y trefniadau oedd ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau. Cyflawnwyd y gwaith hwn yn unol â'r amserlen a nodwyd yn ein Cynllun.

Fel rhan o raglen gylchol o astudiaethau iechyd, gwnaed gwaith ar yr astudiaethau a restrir yn Atodiad 1.

## Astudiaeth achos: Cefnogi gwelliannau ansawdd ac effeithlonrwydd yn y GIG yng Nghymru

Yn 2016, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ddau adroddiad yn crynhoi canlyniadau gwaith archwilio lleol a gynhaliwyd ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r ddau adroddiad wedi ysgogi camau gweithredu cenedlaethol pwysig i geisio sicrhau gwell effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran defnydd y GIG o adnoddau.

Drwy'r adroddiad Theatrau Llawdriniaethau: Crynodeb o Ganfyddiadau Archwiliadau Lleol, gwnaethom gydnabod y gwaith da sydd wedi'i wneud ym maes diogelwch llawfeddygol mewn theatrau llawdriniaeth, ond tynnwyd sylw at y ffaith na roddwyd digon o bwyslais ar effeithlonrwydd na chynhyrchiant dros y blynyddoedd diwethaf. Dangosodd ein gwaith archwilio y gellid gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol. Yn ystod archwiliad byr a gynhaliwyd dros gyfnod o ddeufis mewn dau fwrdd iechyd yn unig, nodwyd bod 1,100 o oriau wedi'u colli mewn amser theatr, sy'n cyfateb i ychydig llai na £1 miliwn o adnoddau'r GIG.

Cyhoeddwyd Rheoli Meddyginiaethau ym Meysydd Gofal Sylfaenol ac Eilaidd ym mis Rhagfyr 2016 a nododd fod angen codi proffil materion yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau o fewn cyrff y GIG yng Nghymru. Nodwyd y gellid arbed dros £8 miliwn drwy fabwysiadu arferion rhagnodi gwell ar gyfer sampl benodol o gyffuriau, a gwella nifer o agweddau ansawdd a diogelwch ar reoli meddyginiaethau.

Mae Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru yn defnyddio argymhellion ein gwaith archwilio, ynghyd â ffynonellau eraill o wybodaeth, i lywio nifer o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu defnyddio'n well o fewn y GIG yng Nghymru a datblygu camau gweithredu cenedlaethol ynghylch theatrau llawdriniaeth.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad cenedlaethol ar Effeithlonrwydd ac Ansawdd Theatrau Llawdriniaeth ym mis Hydref 2016, gan ddwyn ynghyd yr holl bartïon perthnasol i rannu arfer da a nodi gwelliannau allweddol. Gwnaethom gyflwyno canfyddiadau ein gwaith archwilio yn y digwyddiad er mwyn helpu i lywio trafodaeth y diwrnod.





## Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wedi cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis | Wedi rhoi barn ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ac **11** o gyrff a noddir | Wedi cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Wedi rhoi hyfforddiant i swyddogion cyfrifyddu ac uwch swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru | **Pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith archwilio llywodraeth ganolog ar y trywydd cywir ar hyn o bryd |

Mae'r sector llywodraeth ganolog yng Nghymru yn cwmpasu amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd gwahanol gomisiynwyr statudol, arolygwyr a rheoleiddwyr, a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ystod 2016-17, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn flynyddol ar gyfrifon y cyrff llywodraeth ganolog a restrir, yn unol â'n Cynllun.

Gwnaed gwaith archwilio perfformiad hefyd yn y sector hwn, fel rhan o raglen astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol.

## Astudiaeth achos: Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru

O 1 Ebrill 2018, am y tro cyntaf ers dros 800 mlynedd, bydd Cymru yn gyfrifol am godi elfen o'i refeniw treth ei hun.

Ar 1 Rhagfyr 2016, gwnaethom gyhoeddi Adroddiad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau ffocws a heriau i Lywodraeth Cymru yn 2017 wrth iddi baratoi i dderbyn ei chyfrifoldebau cyllidol newydd:

- Cytuno ar y fframweithiau cyllidol a deddfwriaethol â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth y DU;
- Sicrhau bod cynlluniau manwl ar gyfer sefydlu Awdurdod Refeniw Cymru yn cael eu llunio a sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i'r fframwaith deddfwriaethol yn cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau manwl hynny; a
- Sicrhau bod Awdurdod Refeniw Cymru yn cael ei sefydlu ar amser, yn unol â'r gost a gyda phobl sy'n meddu ar y sgiliau cywir.

Gwnaethom nodi bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd da tuag at wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer datganoli cyllidol, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Refeniw Cymru cyn y dyddiad dechrau ym mis Ebrill 2018. Fodd bynnag, gwnaethom amlinellu hefyd fod heriau a risgiau sylweddol i'w hwynebu o hyd mewn perthynas â sicrhau bod y cynlluniau manwl yn cael eu llunio a chyflawni prosiectau allweddol, y bydd angen eu rheoli'n ofalus iawn dros y misoedd nesaf.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i adolygu'r agenda datganoli cyllidol drwy gydol 2017, ac mae'n bwriadu cyhoeddi rhagor o adroddiadau ar gynnydd Llywodraeth Cymru.

## Ynghynt

**Treth Dir y Dreth Stamp**

CThEM a'r Gofrestrfa Dir yn casglu trethi ar drafodion tir ac adeiladau.

**Treth Gwarediadau Tirlenwi**

Mae CThEM yn casglu treth ar warediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi.

**Benthyca**

Gall gweinidogion Cymru fenthyca hyd at gyfanswm o £0.5 biliwn o Gronfa Gyfunol Cymru i gwmpasu diffygion dros dro mewn arian parod. Ni fu angen defnyddio'r cyfleuster hwn.

**Treth Incwm**

Cyn cyflwyno Deddf Cymru, nid oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw bwerau i amrywio cyfraddau treth incwm.

**Deddf Cymru 2014**

## Wedyn

**Ebrill 2018**

**Treth Trafodiadau Tir**

Bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn casglu treth ar drafodion tir ac adeiladau yng Nghymru.

**Ebrill 2018**

**Treth Gwarediadau Tirlenwi**

Bydd Awdurdod Refeniw Cymru yn casglu treth ar warediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru.

**Ebrill 2018**

**Benthyca a chronfa arian parod wrth gefn**

Gall gweinidogion Cymru fenthyca hyd at gyfanswm terfyn o £0.5 biliwn ar gyfer gwariant cyfalaf a £0.5 biliwn at ddibenion refeniw. Gallant hefyd weithredu cronfa arian parod wrth gefn. Daw benthyciadau refeniw o Gronfa Gyfunol Cymru a gall benthyciadau cyfalaf ddod o ffynonellau amrywiol.

**Ebrill 2019**

**Cyfradd treth incwm Cymru**[1]

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu cyfradd treth incwm ar gyfer y rhai y nodwyd eu bod yn drethdalwyr Cymreig bob blwyddyn. Caiff treth incwm, gan gynnwys y gyfradd Gymreig, ei chasglu gan CThEM.

Nodyn

1 O dan Ddeddf Cymru 2016, gall ddatganoli rhannol o ran pwerau treth incwm i Gymru ddigwydd mor gynnar ag Ebrill 2019.



## Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwynwyd **15** o adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau eraill y Cynulliad | **13** o astudiaethau gwerth am arian, adroddiadau cryno neu archwiliadau ymatebol yn mynd rhagddynt | Roedd allbynnau o'n gwaith wedi cefnogi **25** o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | Wedi cyfrannu at sesiwn sefydlu ar gyfer aelodau newydd o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | **Pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus naill ai wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir |

Mae'r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys astudiaethau gwerth am arian, paratoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio mewn perthynas â nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol, ac archwiliadau a gynhelir mewn ymateb i faterion sydd o bryder i'r cyhoedd a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r allbynnau ar gyfer 2016-17, a gyflawnwyd yn unol â'n Cynllun, wedi cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad.

Fel y nodwyd yn ein Cynllun, ar ddechrau 2016-17 ystyriodd yr Archwilydd Cyffredinol bynciau posibl ar gyfer astudiaethau gwerth am arian yn y dyfodol ac ymgynghorodd arnynt. O ganlyniad, mae'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn cynnwys sawl darn newydd o waith a ychwanegwyd at ein rhaglen a roddwyd ar waith i raddau helaeth yn 2016-17.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddarn o waith i ystyried ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn amrywiaeth o bynciau.

## Astudiaeth achos: Adolygiad o drefniadau Llywodraeth Cymru i ariannu Kancoat Ltd

Adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau Llywodraeth Cymru i ariannu Kancoat Ltd oedd y cyntaf i'w gynnal gan ein Tîm Astudiaethau Ymchwilio newydd.


Yn ein Hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, nodwyd sut roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol o £3.4 miliwn i Kancoat i'w helpu i brynu a gweithredu llinell gynhyrchu i haenu coiliau metel ger Abertawe, gyda'r nod o greu twf a swyddi cynaliadwy.

Er gwaetha'r pecyn cymorth a roddwyd i Kancoat, methiant fu'r busnes ac aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Medi 2014, gyda dyled o £2.6 miliwn i Lywodraeth Cymru. Yn ein hadroddiad, tynnwyd sylw at y ffaith fod cost wirioneddol pob swydd a gafodd ei chreu neu'i diogelu gan Kancoat bron deirgwaith yn uwch na ffigur disgwyliedig gwreiddiol Llywodraeth Cymru. Dim ond 12 o swyddi a gafodd eu creu yn ystod oes fer y Cwmni.

Ar ôl clywed tystiolaeth ein hadolygiad a chynnal ei ymchwiliad dilynol ei hun, roedd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bryderon difrifol ynghylch p'un a ddylai'r penderfyniad cychwynnol i fuddsoddi yn Kancoat fod wedi cael ei wneud, o gofio'r ansicrwydd mawr ynghylch y cwmni a hyfywedd masnachol y prosiect dan sylw. Mynegodd y Pwyllgor rai pryderon ehangach hefyd ynghylch camau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau yng Nghymru.

O ganlyniad, mae'r Pwyllgor wedi croesawu penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i ddechrau cynnal archwiliad gwerth am arian ehangach o drefniadau cyffredinol Llywodraeth Cymru ym maes cyllid busnes.





## Cyfnewid arfer da

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wedi cynnal **20** o seminarau a gweminarau dysgu ar y cyd | **1,126** o bobl wedi mynychu ein seminarau a'n gweminarau | **93%** o ddirprwyon o'r farn bod ein seminarau a'n gweminarau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn | **83%** o randdeiliaid o'r farn bod ein gwaith arfer da wedi bod o fudd i wasanaethau cyhoeddus | **Pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer gwaith arfer da ar y trywydd cywir ar hyn o bryd |

Un o ddwy brif ran ein gwaith arfer da yw darparu adnoddau ar-lein am ddim sy'n galluogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, llunwyr polisïau a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gael gafael ar wybodaeth ychwanegol. Mae'r rhan arall o'n gweithgarwch yn cynnwys hwyluso sgyrsiau lle y caiff gwersi a ddysgwyd o lwyddiannau a methiannau cymaradwy eu rhannu wyneb yn wyneb.

Yn ystod 2016-17, cyflawnwyd amrywiaeth eang o allbynnau drwy'r rhaglen hon, a oedd naill ai'n unol â'n Cynllun gwreiddiol neu wedi'u haddasu o'n Cynllun gwreiddiol, a chyda phwyslais penodol ar hyrwyddo'r broses o rannu gwybodaeth ar draws ffiniau sefydliadol, daearyddol a rhyngwladol.

## Astudiaeth achos: Sesiwn newid ymddygiad – Deall y Jargon Abertawe

Yn ystod 2016-17, gweithiodd ein Tîm Arfer Da gyda nifer o bartneriaid i gynnal cyfres o wyliau newid ymddygiad ym Mhrifysgolion Bangor, Abertawe ac Aberystwyth. Nod y gwyliau oedd rhannu gwybodaeth ymhlith timau trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus am amrywiaeth o weithgareddau newid ymddygiad a oedd yn digwydd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, a chreu cysylltiadau rhwng damcaniaeth gwyddor newid ymddygiad a sut i'w rhoi ar waith yn ymarferol.

Un o'r sesiynau mwyaf effeithiol oedd gêm banel 'Deall y Jargon' a gynhaliwyd yn ystod Gŵyl Abertawe ym mis Medi 2016. Mae Barod, y cwmni budd cymunedol a gyflwynodd y sesiwn, yn arbenigo mewn newid ymddygiad o ran y ffordd y mae pobl sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cyfathrebu â'r cyhoedd a'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Fel rhan o'r gêm, roedd yn rhaid i'r cyfranogwyr siarad am ddwy funud ar thema yn ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau o flaen panel o staff Barod, yr oedd gan hanner ohonynt anableddau dysgu. Os oedd y cyflwynydd yn defnyddio jargon yn ystod y ddwy funud, roedd seinydd yn canu. Os oedd y seinydd yn canu deirgwaith, roedd y gêm ar ben i'r cyflwynydd hwnnw.

Cafodd y gêm effaith amlwg a sydyn ar ymddygiad pobl. Roedd cyfranogwyr yn falch o wisgo bathodyn 'Deall y Jargon' (os oeddent yn llwyddiannus) a gwelwyd newid amlwg yn natur sgyrsiau yn ystod gweddill yr ŵyl hefyd. Roedd pobl yn llawer mwy ymwybodol o'r iaith yr oeddent yn dewis ei defnyddio a'r effaith y gallai ei chael ar y gwrandawyr, ac roeddent yn barod i herio ymddygiad pobl eraill. Yn ei adborth, dywedodd un o'r dirprwyon: 'Mae hyn wedi newid yr hyn rwy'n ei wneud – llawer mwy na chwrs hyfforddi ar 'gyfathrebu gwell' neu ddogfen ganllaw'.

Mewn ymgais i fodelu'r newidiadau yr hoffai eu gweld, mae ein Tîm Arfer Da wedi bod yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r sesiwn newid ymddygiad yn ei weithgareddau dyddiol ac wedi bod yn annog eraill i wneud yr un peth gan ddefnyddio ein blog Arfer Da a dulliau cyfathrebu eraill.



## Ymgysylltu a chydweithio

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wedi hwyluso gwaith i ganfod ac atal twyll a gwallau gwerth mwy na **£4.4 miliwn** | Aelod gweithgar o **10** gweithgor allanol allweddol a sylwedydd ar saith grŵp arall | Wedi archwilio **£250 miliwn** o arian Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth yng Nghymru | **66%** o randdeiliaid o'r farn ein bod yn gweithio'n dda gyda chyrff adolygu allanol eraill | **Pob un** o'n blaenoriaethau tair blynedd ar gyfer ymgysylltu a chydweithio naill ai wedi'u cyflawni neu ar y trywydd cywir |

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i weithredu ar eu hymrwymiad i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r broses o ddatblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Yn unol â'n Cynllun, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau archwilio eraill y DU a'r prif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru i wella effaith gyfunol ein gwaith, ac wedi gwneud ychydig o waith archwilio a gomisiynwyd.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gwneud trefniadau gyda mathau penodol o gyrff er mwyn i'r swyddfa neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny, neu arfer eu swyddogaethau. Ond, rydym yn ymwybodol y dylai'r holl weithgareddau hynny fod yn hunangyllidol ac na ddylent amharu ar ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

## Astudiaeth achos: Consortia addysg rhanbarthol: gweithio gydag Estyn

Yn ystod gwanwyn a haf 2016, gweithiodd tîm o'n harchwilwyr perfformiad gyda swyddogion o Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) i gynnal arolygiadau dan arweiniad Estyn o'r pedwar consortia addysg rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r consortia yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion i gynghorau ac yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn system addysg Cymru.

Canolbwyntiodd ein staff yn bennaf ar sut mae'r consortia yn rheoli eu hadnoddau, a nodwyd meysydd i'w gwella o ran asesu gwerth am arian a chynllunio ariannol tymor canolig.

Roedd ein rôl yn arolygiadau 2016 yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol gydag Estyn i adolygu datblygiad cynnar y consortia addysg rhanbarthol, y cyhoeddwyd adroddiad arno ym mis Mehefin 2015. Gwnaethom ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd drwy arolygiadau 2016 a rhywfaint o waith maes ychwanegol i gyhoeddi Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2016. Nodwyd gennym fod Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r consortia addysg rhanbarthol wedi gwneud cynnydd rhesymol i roi'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad yn 2015 ar waith, er bod y consortia ar gamau gwahanol yn eu datblygiad o hyd.

Ym mis Medi 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddigwyddiad lle cyflwynodd staff o Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru drosolwg o'u canfyddiadau allweddol. Ar ddiwedd y digwyddiad, cyflwynodd y pedwar consortia gynllun gweithredu drafft a oedd yn ceisio llunio dull cenedlaethol o fynd i'r afael â rhai o'r prif broblemau.

Gan ddefnyddio ein memorandwm a thystiolaeth gan y pedwar consortia ac Estyn, nododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wersi ehangach i'w dysgu ym maes gweithio rhanbarthol fel rhan o'i ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraeth Leol ym mis Ionawr 2017.

## Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn rhagnodi'r fframwaith ar gyfer ein trefniadau llywodraethu, yn fwyaf nodedig mewn perthynas â chyfansoddiad a swyddogaethau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, a'r gydberthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau aelodau anweithredol, aelodau gweithredol ac aelodau etholedig sy'n gyflogeion er mwyn cynnig dealltwriaeth a phrofiad sy'n helpu i lunio ein cyfeiriad strategol. Mae ein trefniadau llywodraethu yn rhoi cyfle gwirioneddol i ni ddatblygu a gwneud cynnydd pellach fel busnes.

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru strwythur uwch reoli hefyd, a luniwyd i gynnig llinellau adrodd ac atebolrwydd clir, a galluogi'r Archwilydd Cyffredinol drwy ei waith i hysbysu'r cyhoedd a dylanwadu ar y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

Ceir amlinelliad o strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiadau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg ar gyfer y flwyddyn, a disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebwyd yn 2016-17, yn y Datganiad Llywodraethu.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn ystod 2016-17 yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Bwrdd, ymhlith materion eraill, yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2015-16, amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017-18, adroddiad interim ar gynnydd yn erbyn cynllun blynyddol 2016-17, cynllun ffioedd ar gyfer 2017 a chynllun blynyddol ar gyfer 2017-18 sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein strategaeth a'n blaenoriaethau tair blynedd. Cafodd y dogfennau hyn eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a chraffodd y Pwyllgor Cyllid arnynt.

Ar 20 Ebrill 2017, cafodd Swyddfa Archwilio Cymru ganmoliaeth am gyrraedd rownd derfynol y categori Cyflawniad ym maes Atebolrwydd ac Adroddiadau Ariannol yng Ngwobrau Arloesedd Cyllid Cyhoeddus 2017, sy'n amlygu ac yn gwobrwyo cyflawniadau ym maes cyllid cyhoeddus a llywodraethu.



## Ein defnydd o adnoddau

Rydym wedi gweithio'n galed i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y ffordd rydym yn rhedeg ein busnes, ac yn y ffordd rydym yn neilltuo adnoddau ar gyfer gwaith archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, ers nifer o flynyddoedd. Yn yr adran hon, rhown sylwadau lefel uchel ar sut rydym wedi rheoli ein defnydd o adnoddau yn 2016-17.

Er nad yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u rhestru fel cyrff cyhoeddus at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym, serch hynny, yn ceisio cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni'r saith nod llesiant yng Nghymru:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Yn ogystal, yn yr adran hon, rydym wedi dangos (drwy ddefnyddio eiconau perthnasol) yr achosion hynny lle roedd ein perfformiad yn 2016-17 wedi cyfrannu at un neu fwy o 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig[2].

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

1 Diffinnir hyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'

2 Paratowyd yn unol â Public sector annual reports: sustainability reporting guidance 2016-17 gan Drysorlys EM

## Gwaith rheoli ariannol ac arbedion effeithlonrwydd

Yn unol â'r hyn ag amlinenllir yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2016-17, erys rheolaeth ariannol gadarn a chosteffeithlonrwydd yn flaenoriaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn 2016-17, gwnaethom gyfyngu ein gwariant gweithredu net o fewn £192,000 o'r swm y caniatawyd ar ei gyfer yn ein Hamcangyfrif, a nodwyd arbedion pellach ar gostau staff a chostau eraill a wnaeth ein galluogi i ariannu cynllun ymadael gwirfoddol a fydd yn arbed £400,000 y flwyddyn yn y dyfodol.

Yn unol â'n Hamcangyfrif, gwnaethom hefyd fuddsoddi £222,000 o arian cyfalaf mewn pedwar maes a fydd yn sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd dros y blynyddoedd nesaf:

- Ym mis Mehefin 2016, gwnaethom fuddsoddi £65,000 er mwyn symud ein swyddfa yn y Gogledd o Ewlo yn y Dwyrain i leoliad mwy canolog yn Abergele. Ynghyd ag arbedion ar gostau prydlesi ac ynni, rydym yn rhagweld arbedion o ran costau teithio staff hefyd.
- Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau fideogynadledda ym mhob un o'n swyddfeydd fel bod llai o angen i staff deithio i gyfarfodydd. Yn 2016-17, gwnaethom fuddsoddi £34,000 mewn cyfarpar ychwanegol oherwydd y cynnydd yn y galw am y cyfleuster hwn.
- Ar ôl rhoi ein meddalwedd rheoli archwiliadau ar waith yn llwyddiannus ar gyfer gwaith archwilio ariannol yn 2015-16, mae prosiect i ddigideiddio trefniadau rheoli archwiliadau ym maes gwaith archwilio perfformiad yn mynd rhagddo. Er mwyn hwyluso hyn, gwnaethom fuddsoddi £25,000 mewn trwyddedau ychwanegol ar gyfer meddalwedd MK Insight yn ystod y flwyddyn.
- Buddsoddwyd gweddill ein buddsoddiad cyfalaf, rhyw £98,000, mewn cyfarpar TG newydd gan gynnwys adnewyddu'r seilwaith rhwydweithio a phrynu gliniaduron 'hybrid' newydd a fydd yn galluogi ein staff archwilio i weithio'n fwy effeithlon a byddwn yn parhau i ddefnyddio llai o bapur.

## Ansawdd ein gwaith

Mae ansawdd ein gwaith yn hollbwysig i ni a'n rhanddeiliaid. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio, ag adolygir yn flynyddol, ynghyd â Datganiad o Ymarfer ar gyfer swyddogaethau archwilio, asesu ac arolygu arbennig mewn perthynas â gwella llywodraeth leol, yn nodi'r ffordd y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a rhai o swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cynllunio i ategu Safonau Archwilio Rhyngwladol ac ymgorffori arfer gorau proffesiynol.

Mae Adroddiad Tryloywder ar gyfer 2016, sy'n rhoi mwy o fanylion am sut mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyrraedd safonau uchel yn y ffordd y mae'n gweithio ac o ran ansawdd ei gwaith, ar gael ar ein gwefan; caiff adroddiad tebyg ar gyfer 2016-17 ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2017.

## Ein pobl

Fel corff archwilio proffesiynol a darparwr hyfforddiant achrededig â thri chorff cyfrifyddu proffesiynol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i raglen dreigl o recriwtio hyfforddeion. Drwy ein hymgyrchoedd recriwtio blynyddol anelwn at ddenu ymgeiswyr o'r safon orau bosibl.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17, llwyddodd 24 o hyfforddeion i symud ymlaen i gamau nesaf eu hastudiaethau ac roedd 91.6% ohonynt wedi llwyddo i basio arholiadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) y tro cyntaf.

Yn 2016-17, gan weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru, gwnaethom sefydlu'r Fenter Datblygu Sgiliau Cyllid, sy'n ceisio gwneud cyllid cyhoeddus yn ddewis gyrfa mwy deniadol i raddedigion a chodi safonau ym maes rheolaeth ariannol yn y wlad. O dan y fenter hon, mae sefydliadau partner, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, yn cynnig secondiadau i hyfforddeion cyllid dreulio amser mewn cyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus. Yn 2016-17, cwblhaodd hyfforddeion o Swyddfa Archwilio Cymru leoliadau mewn byrddau iechyd lleol yn y gogledd a'r de, Llywodraeth Cymru, cyngor dinas ac awdurdod heddlu.

Ar 20 Ebrill 2017, cafodd y Fenter ei dathlu fel enillydd y categori Menter Hyfforddiant a Datblygu Cyllid yng Ngwobrau Arloesedd Cyllid Cyhoeddus 2017.



SYLWADAU'R BEIRNIAID: "MAE'R MODEL ARLOESOL HWN YM MAES HYFFORDDI A DATBLYGU SGILIAU CYLLID YN ADLEWYRCHIAD GWYCH O EFFAITH EI GYNGHREIRIAID ALLANOL A CHYDWEITHIO. MENTER GWBL WREIDDIOL, O'R GWAELOD I FYNY, A GAIFF EI HARWAIN GAN WIRFODDOLWYR."

Rydym yn parhau i fuddsoddi’n fwy cyffredinol mewn cyfleoedd dysgu a datblygu i helpu ein staff i gyflawni eu gwaith. Yn 2016-17, treuliwyd 9.1 diwrnod fesul cyflogai ar amrywiaeth o weithgareddau dysgu a datblygu, ar gyfartaledd. Cafodd rhywfaint o’r hyfforddiant ei gynllunio a’i ddarparu’n fewnol, a lle y bo’n briodol ac yn gosteffeithiol, comisiynwyd hyfforddiant allanol hefyd i roi hyfforddiant yn unol â’n gofynion penodol.

Mae ffurflen werthuso electronig yn ein galluogi i gofnodi canlyniadau’n gyflym ac yna fesur llwyddiant ac effaith y cyrsiau hyfforddiant. Teimlai 98% o staff fod y cyrsiau a fynychwyd ganddynt yn 2016-17 yn effeithiol o ran eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

## Trawsnewid digidol

Dechreuwyd prosiect ym mis Medi 2016 gyda’r nod o drawsnewid y ffordd rydym yn defnyddio data a thechnoleg yn ein gwaith archwilio.

Cafodd tîm o chwe aelod o staff, mewn rolau iau a oedd yn gynrychioliadol o bob maes o’r busnes, amser a lle i weithio i gyflawni’r canlyniad uchelgeisiol ‘Archwilio arloesol drwy dechnoleg arloesol a phobl arloesol’.

Datblygodd a chyflwynodd y tîm 14 o newidiadau prototeip bach i’r ffordd rydym yn defnyddio data a thechnoleg, sydd eisoes wedi arwain at rai gwelliannau o ran effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwaith ac wedi gwneud agweddau ar fywyd bob dydd yn haws i staff.

Daeth y prosiect carlam hwn i ben ym mis Mehefin 2017 pan gafodd adroddiad terfynol ac argymhellion eu cyflwyno i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Nod yr argymhellion oedd cynnal llwyddiannau’r prosiect a symud Swyddfa Archwilio Cymru tuag at drawsnewidiad digidol hirdymor a chynaliadwy.

Yn 2017-18, bydd prosiect tebyg yn dechrau gyda’r nod o wella’r ffordd rydym yn cyfathrebu â’r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill.

## Ymdrin â gohebiaeth ac achosion o chwythu'r chwiban (allanol)

Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am y ffordd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu gwarchod. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn 'berson rhagnodedig' o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd ar gyfer chwythu'r chwiban ynghylch pryderon am y materion canlynol:

- cynnal busnes cyhoeddus yn briodol; a
- thwyll, gwerth am arian a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Wrth ddelio â gohebiaeth a chysylltiadau a dderbynnir drwy ein trefniadau chwythu'r chwiban allanol, ein nod yw:

- ymateb i bryder cyhoeddus yn gyflym, ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol;
- gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i'r rhai sydd wedi cymryd yr amser i dynnu sylw atynt;
- cyhoeddi adroddiadau archwilio lle mae angen gwneud hynny yn ein barn ni; a
- sicrhau nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i edrych ar faterion sy'n amherthnasol i'n gwaith archwilio[3], nac yn treulio gormod o amser ar faterion di-bwys.

Yn 2016-17, derbyniwyd 96 o eitemau o ohebiaeth yn codi pryderon posibl am y ffordd roedd arian ac asedau cyhoeddus yn cael eu gwarchod. Mewn 82% o'r achosion hyn, cyflwynwyd ymateb llawn neu ymateb interim o fewn 30 diwrnod gwaith i dderbyn yr ohebiaeth.

Cawsom 33 o gysylltiadau drwy ein trefniadau chwythu'r chwiban allanol hefyd. O'r rhain, roedd 17 yn berthnasol i gylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

3 Fel person rhagnodedig, nid oes dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law. Dim ond datgeliadau sy'n cyd-fynd â'i bwerau a'i ddyletswyddau archwilio a phwerau a dyletswyddau cysylltiedig y gall eu hystyried (nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol).

## Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn darparu gwasanaeth dwyieithog. Mae ein dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg, mae gennym wefan gwbl ddwyieithog a thrwy gydol 2016-17, gwnaethom gyfathrebu â'r cyhoedd, cyrff a archwilir a'r cyfryngau yn y ddwy iaith.

Rydym yn ymrwymedig i weithredu a chynnal safonau newydd y Gymraeg. Mae ein Hysbysiadau Cydymffurfio i'w gweld ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

Mae fersiwn derfynol yr Adroddiad ar weithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar ein gwefan hefyd. Y Cynllun hwn oedd sail ein dull gweithredu mewn perthynas â'r Gymraeg cyn i'r Safonau gael eu cyflwyno.

## Lles cyflogeion

Rydym yn ymrwymedig i annog ffordd o fyw iach a chydbwysedd bywyd a gwaith da ymhlith ein staff. Rydym hefyd am i'n staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n llawn pan fyddant yn wynebu anawsterau, p'un a ydynt yn effeithio ar eu gallu i ymgymryd â'u rôl ai peidio.

Caiff ein polisi lles ei ategu gan ganllawiau er mwyn cefnogi ein hymrwymiadau a sicrhau bod unrhyw faterion o ran iechyd a lles staff yn cael eu nodi a'u rheoli mewn ffordd ragweithiol a sensitif. Rydym hefyd yn hybu ac yn cefnogi iechyd emosiynol a chorfforol staff, a'u lles, drwy raglen flynyddol o ddigwyddiadau.

Mae rhaglen gymorth i gyflogeion hefyd ar gael naill ai drwy wasanaeth ffôn 24 awr neu drwy gyfleuster ar-lein. Mae'r rhaglen cymorth i gyflogeion yn rhoi cyngor proffesiynol a chymorth emosiynol i staff ar amrywiaeth o faterion.

Mewn arolwg o staff Swyddfa Archwilio Cymru a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016, roedd 71% o'r aelodau o staff a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo eu bod yn gallu taro cydbwysedd da rhwng eu gwaith a'u bywyd preifat; ffigur is na'n targed o 80% o leiaf, ond mae'n uwch na sgôr feincnod Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, sef 67%. Byddwn yn canolbwyntio ar y maes hwn fel rhan o'n gwaith gwella yn 2017-18 ac, yn ein harolwg staff nesaf, rydym hefyd yn bwriadu defnyddio'r un cwestiynau a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn 2017, gan ymestyn ystod y data lles rydym yn eu casglu a gwella ein gallu i lunio cymariaethau meincnodi.

Rydym yn monitro cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn fanwl ac mae gennym nifer o systemau ar waith i helpu staff i ddychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus. Cafodd 6.5 diwrnod fesul cyflogai eu colli ar gyfartaledd yn sgil absenoldeb oherwydd salwch yn ystod y flwyddyn adrodd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 (o gymharu â 7.3 diwrnod fesul cyflogai ar gyfer y flwyddyn flaenorol).

## Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r fframwaith diogelu rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â'r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a'r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o'n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a'n hamcanion cysylltiedig. Mae Adroddiad Blynyddol ar gynnydd o ran cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb yn 2015-16 ar gael ar ein gwefan. Caiff ein hadroddiad ar gyfer 2016-17 ei gyhoeddi yn ystod haf 2017.

## Gwaith cymunedol ac elusennol

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod y buddiannau y gall gwaith cymunedol a gwaith elusennol gan staff eu cyflwyno i'r gymuned ehangach ac yn cymeradwyo'r staff am eu hymdrechion unigol. Gall staff ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt yn y gweithle a datblygu sgiliau newydd, gan wella eu morâl, eu hiechyd corfforol a'u cydbwysedd bywyd a gwaith ar yr un pryd.

Yn amodol ar ofynion gweithredol, rydym yn cefnogi cyflogeion sydd am gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol neu elusennol megis gwaith gofal yn y gymuned, prosiectau cadwraeth, a gweinyddu digwyddiadau cyhoeddus.

Yn ogystal, dewisodd y staff yr elusen CDH UK fel ffocws ar gyfer eu gweithgareddau codi arian yn 2016-17. Dros y flwyddyn ac yn eu hamser eu hunain, cynhaliodd ein staff nifer o ddigwyddiadau codi arian:

- Gwisgodd cydweithwyr o Swyddfa Archwilio Cymru eu crysau melyn llachar a rhoi cynnig ar daith feicio Velothon Cymru, sy'n 87 milltir, am yr ail flwyddyn yn olynol;
- Llwyddodd grŵp arall o staff i gyrraedd copa Ben Nevis;
- Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys stondinau cacennau a rafflau rheolaidd, a chystadleuaeth i ddarogan sgoriau a chanlyniadau Pencampwriaeth y Chwe Gwlad.

Cododd y staff gyfanswm o tua £3,500 at yr elusen. Ar gyfer 2017-18, mae'r staff wedi dewis elusennau iechyd meddwl fel ffocws ar gyfer eu gweithgareddau codi arian.





## Gwarchod yr amgylchedd[4]

| Ailachredwyd ar **Lefel 4** o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd | Wedi lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr **9%** | Wedi lleihau ein defnydd o bapur **20%** | **Dwy ran o dair** o'n gwastraff wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | Wedi defnyddio credydau carbon i wrthbwyso **270 o dunelli** o allyriadau |
|---|---|---|---|---|

Ar gyfer 2016-17, cawsom ein hailachredu ar Lefel 4 (y lefel uchaf ond un) o Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar gyfer 2016-17, gan ddangos ein hymrwymiad parhaus i reoli amgylcheddol effeithiol. Er na wnaethom gyrraedd ein targed o gyflawni Lefel 5 (y lefel uchaf) yn 2016-17, rydym yn disgwyl gwneud hynny yn gynnar yn 2017-18.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, gwnaethom ddechrau gwrthbwyso carbon er mwyn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang. Ym mis Ionawr 2017, gwnaethom wrthbwyso[5] 270 o dunnelli o allyriadau sy'n cyfateb i garbon deuocsid ($tCO_2e$) sy'n deillio o'n teithiau busnes, am gost o £945, drwy gefnogi'r prosiectau canlynol:

- Plannu 162 o goed yng Nghymru;
- Prosiect Ailsefydlu Tyllau Turio yn Uganda (108 $tCO_2e$); a
- Phrosiect Lleihau Datgoedwigo Florestal Santa Maria ym Mrasil (162 $tCO_2e$);

Mae ystyriaethau ynghylch cynaliadwyedd hefyd wedi'u hymgorffori yn ein harferion caffael, lle rydym yn cymhwyso Fframwaith Hyblyg a Safonau Prynu Llywodraeth y DU, gan gynnwys yn y ffyrdd canlynol:

- rhoi hyfforddiant i staff caffael ar egwyddorion caffael cynaliadwy;
- cynnal asesiadau risg mewn perthynas â chynaliadwyedd achosion caffael gwerth uwch ac ystyried costau oes gyfan; a
- defnyddio fframweithiau'r llywodraeth os oes rhai ar gael a sicrhau bod y cyflenwyr rydym yn eu defnyddio yn dilyn arferion cynaliadwy.

4 Paratowyd yn unol â Public sector annual reports: sustainability reporting guidance 2015-16 Trysorlys EM

5 Mae gwrthbwyso carbon yn cyfeirio at ddefnyddio credydau carbon er mwyn galluogi sefydliadau i wneud iawn am rai o'u hallyriadau. Gall sefydliadau wneud iawn am rai o'r allyriadau carbon drwy brynu credydau mewn prosiectau sy'n ariannu arbediad cyfatebol mewn carbon deuocsid yn rhywle arall.

Rydym yn ymrwymedig i ailddefnyddio ein dodrefn lle bo hynny'n bosibl, defnyddio deunydd papur wedi'i ailgylchu, a defnyddio'r Safonau Prynu fel canllaw ar gyfer glanhau, adeiladu a phrynu cyfarpar.

Yn 2016-17, gwnaethom adleoli ein swyddfa yn y Gogledd i safle llai o faint â pherfformiad amgylcheddol gwell. Gwnaethom hefyd ddefnyddio adnodd Cyfrifo Pwysau Gwastraff Busnes WRAP i roi mesuriadau mwy cywir o'n lefelau gwastraff. Drwy ddefnyddio'r adnodd, gwnaethom ailgyfrifo data'r flwyddyn flaenorol a llunio llinell sylfaen a thargedau diwygiedig.

Gwnaethom barhau i ddefnyddio mwy o ddŵr yn 2016-17, yn bennaf o ganlyniad i ollyngiad dŵr sydd bellach wedi'i atgyweirio, a'r cynnydd parhaus yn nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd a digwyddiadau i randdeiliaid a gynhelir yn ein safleoedd. Yn 2017-18, byddwn yn ystyried a oes unrhyw ffyrdd eraill y gallwn wella ein perfformiad yn y maes hwn.

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS


6 CLEAN WATER AND SANITATION

13 CLIMATE ACTION


15 LIFE ON LAND

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD


## Y defnydd od dŵr





## Y defnydd o papur





## Lleihau a rheoli gwastraff




## Y defnydd o ynni




## Allyriadau nwyon tŷ gwydr



| | 2016-17 | 2015-16 | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli amgylcheddol** | | | | | |
| Lefel achredu'r Ddraig Werdd | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt**[6] | | | | | |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ | 3,650 | 3,116 | 2,760 | 2,351 | 2,322 |
| Y defnydd o ddŵr $m^3$ fesul FTE | 13.9 | 10.5 | 12.0 | 10.1 | 9.9 |
| Costau cyflenwi dŵr £ | 6,219 | 6,280 | 4,754 | 4,348 | 3,336 |
| Y defnydd o bapur mewn rimiau | 1,725 | 2,150 | 2,305 | 2,325 | 2,385 |
| Costau cyflenwi papur £ | 4,269 | 5,609 | 6,349 | 6,426 | 6,112 |
| **Lleihau a rheoli gwastraff**[7] | | | | | |
| Cyfanswm tunelli gwastraff | 38.7 | 54.9 | 66.5 | 65.8 | 86.0 |
| Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 26.0 | 38.6 | 27.4 | 26.2 | 26.9 |
| Gwastraff TGCh wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio (yn allanol) | 0.7 | 2.6 | 0 | 0 | 0 |
| Dodrefn a chyfarpar (yn allanol) | 2.6 | 12.3 | 0 | 0 | 0 |
| Ailgylchu cymysg, papur, gwastraff bwyd, gardd | 22.6 | 23.7 | 27.4 | 26.2 | 26.9 |
| Tirlenwi | 12.4 | 13.7 | 39.1 | 39.2 | 59.2 |
| Peryglus | 0.4 | 2.5 | 0 | 0.4 | 0 |
| Ailddefnyddio, ailgylchu, compostio fel % o gyfanswm y gwastraff[8] | 67.0 | 70.4 | 41.1 | 39.8 | 31.2 |
| Cyfanswm costau gwaredu £ | 13,466 | 16,400 | 7,337 | 6,229 | 8,586 |

6 Ystyrir mai arfer da ac arfer gorau ar gyfer defnyddio dŵr mewn swyddfa yw 4 $m^3$ i 6 $m^3$ a ≤4 $m^3$ yn y drefn honno fesul cyflogai Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) y flwyddyn (Targedau Ymrwymiad Gwyrdd y Llywodraeth). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydym yn cynnwys ymwelwyr â swyddfeydd yn ein cyfrifiad sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ein ffigurau oherwydd nifer y digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynhelir yn ein pencadlys yng Nghaerdydd.
7 Cyfrifwyd drwy ddefnyddio ffactorau trosi priodol WRAP.
8 78% ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 78-2015 (Adroddiad Cyflwr yr Ystad 2015-16).

| | 2016-17 | 2015-16 | 2014-15 | 2013-14 | 2012-13 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr**[9] | | | | | |
| Cyfanswm tunelli allyriadau $CO_2$ | 483.7 | 533.0 | 563.1 | 539.5 | 551.6 |
| Y gellir eu priodoli i deithiau busnes | 233.2 | 272.3 | 275.7 | 252.1 | 251.8 |
| Mewn car | 199.5 | 232.7 | 239.1 | 231.2 | 235.9 |
| Ar y rheilffordd neu drwy'r awyr | 33.7 | 39.6 | 36.6 | 20.9 | 16.0 |
| Y gellir eu priodoli i'r defnydd o ynni | 227.8 | 233.8 | 263.3 | 261.8 | 299.8 |
| Trydan | 220.5 | 228.3 | 257.7 | 257.5 | 293.4 |
| Nwy | 7.3 | 5.5 | 5.5 | 4.3 | 6.4 |
| Y gellir ei briodoli i arall[10] | 22.6 | 23.6 | 24.1 | 25.6 | n/a |
| Cyfanswm gwariant ar deithiau busnes £000[11] | 1,232 | 1,258 | 1,214 | 1,173 | 1,142 |
| Cost teithiau busnes fesul FTE £ | 4,720 | 4,972 | 5,037 | 4,827 | 5,053 |
| Cyfanswm gwariant ynni £ | 57,051 | 64,394 | 63,119 | 56,556 | 69,874 |
| **Effeithlonrwydd ystad** | | | | | |
| Cost fesul FTE £[12] | 3,072 | 3,228 | 3,397 | 3,431 | 3,186 |
| Costeffeithlonrwydd[13] £ fesul $m^2$ | 287 | 300 | 278 | 285 | 265 |
| Effeithlonrwydd o ran gofod $m^2$ fesul FTE[14] | 10.7 | 10.7 | 12.2 | 12.0 | 12.0 |

9 Cyfrifwyd yn unol â DEFRA Environmental Reporting Guidelines.
10 Y gellir ei briodoli i allyrru a dosbarthu ynni, gwaredu gwastraff a defnyddio a thrin dŵr. Mesurwyd gyntaf yn 2013-14.
11 Yn cynnwys costau ceir ar brydles, lwfansau trafnidiaeth a chostau teithio a chynhaliaeth.
12 O gymharu â £3,229 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2016.
13 Gan gynnwys rhent, ardrethi a chostau eraill.
14 O gymharu â 15.2 m2 fesul FTE ar gyfer Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2016. 2015-16 oedd y flwyddyn gyntaf inni gynnwys contractwyr yn ein cyfanswm FTE, er mwyn sicrhau cymariaethau meincnodi cyfatebol.

# ADRODDIAD AR ATEBOLRWYDD

## DATGANIADAU AC ADRODDIADAU ALLWEDDOL SY'N EIN GALLUOGI I FODLONI GOFYNION ATEBOLRWYDD A DANGOS CYDYMFFURFIAETH AG ARFER LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL DA

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
8 Mehefin 2017

# ADRODDIAD AR DREFNIADAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Materion cyffredinol

Ar 1 Ebrill 2014, cafodd Swyddfa Archwilio Cymru ei sefydlu'n llawn o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 wrth i staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau gael eu trosglwyddo o'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff yn dangos sut y caiff rhwymedigaethau pensiwn eu trin yn y cyfrifon ac yn cyfeirio at ddatganiadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae'r Datganiad llywodraethu yn cynnwys gwybodaeth am ein cofrestr buddiannau a sut i gael gafael ar y wybodaeth sydd yn y gofrestr honno.

Mae'r Adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff yn cynnwys data ar ffigurau absenoldeb oherwydd salwch Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â gwybodaeth am ein hymrwymiad i sicrhau bod pob aelod o staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys anabledd[15]) yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal ym mhob agwedd ar ei swydd.

Mae gwybodaeth am ein hadroddiadau ar achosion yn ymwneud â data personol wedi'i chynnwys yn adran llywodraethu gwybodaeth y Datganiad llywodraethu.

Mae ein Cynllun Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer 2017-18 yn amlinellu datblygiadau tebygol yn y dyfodol ym musnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Cyfathrebu ac ymgysylltu â staff

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau a dulliau i wneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth i gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru am faterion o bwys iddynt hwy fel cyflogeion;
- ymgynghori â chyflogeion neu'u cynrychiolwyr yn rheolaidd fel y gellir ystyried barn cyflogeion wrth wneud penderfyniadau sy'n debygol o effeithio ar eu buddiannau;
- annog cyflogeion i gyfrannu at berfformiad y sefydliad; a

15 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i'r Model Cymdeithasol o Anabledd i gydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanalluogi gan rwystrau cymdeithasol, amgylcheddol, sefydliadol ac agweddol mewn cymdeithas. Diffiniadau pwysig yn y Model Cymdeithasol:
- ystyr nam yw anaf, salwch neu gyflwr cynhwynol sy'n achosi neu'n debygol o achosi effaith hirdymor ar ymddangosiad corfforol a/neu gyfyngu ar weithrediad yr unigolyn sy'n wahanol i'r cyffredin; ac
- ystyr anabledd yw colli neu gyfyngu ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill oherwydd rhwystrau cymdeithasol, sefydliadol, amgylcheddol ac agweddol.

- datblygu ymwybyddiaeth gyffredin ymhlith pob aelod o staff o’r ffactorau ariannol ac economaidd sy’n effeithio ar berfformiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ag uwch aelodau o staff ac aelodau’r Bwrdd, a chynhadledd i bob aelod o staff;
- trefnu cyfarfodydd ‘fforwm partneriaeth’ â chynrychiolwyr undebau llafur, a chynnwys y cynrychiolwyr hynny yn y broses o baratoi neu ddiwygio polisïau a mentrau datblygu sefydliadol penodol, lle bo hynny’n berthnasol;
- cyhoeddi blogiau rheolaidd gan aelodau o’r Bwrdd a’r Pwyllgor Rheoli, a sicrhau bod cofnodion y Bwrdd a’r Pwyllgor Rheoli ar gael yn hawdd i’w darllen ar ein mewnrwyd;
- cynnal ‘carwsél’ o newyddion, adroddiadau ac ymgynghoriadau cyfredol ar y fewnrwyd ac annog staff i rannu gwybodaeth ac arfer da drwy rwydwaith cyfryngau cymdeithasol mewnol; ac yn fwy penodol
- grwpiau ffocws, a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, â staff ym mhob un o’n swyddfeydd ym mis Ionawr 2017 er mwyn casglu eu barn a chlywed eu hymateb i’r Ymgynghoriad ar ein strategaeth ddrafft ar gyfer 2017-2020;
- cynnal arolwg staff cyflym a rhannu’r canlyniadau, yn ogystal ag ymrwymo i ddefnyddio’r un cwestiynau craidd ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn ein harolwg ein hunain yn ystod hydref 2017; a
- chynnal cyfres o weithdai diwylliant i staff rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2016, er mwyn ystyried ein safbwyntiau gwahanol ar y gwerthoedd a’r ffyrdd o ymddwyn y dylem eu harddangos yn ein gwaith bob dydd, a datblygu fframwaith cytûn ar gyfer y gwerthoedd a’r ffyrdd o ymddwyn hynny.

Roedd aelodau etholedig sy’n gyflogeion hefyd wedi rhoi dealltwriaeth a phrofiad ychwanegol ac wedi mynegi safbwyntiau staff i’r Bwrdd.

## Archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru

Penodwyd RSM UK Audit LLP yn archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod o 43 mis yn dechrau 1 Mawrth 2015.

Yn ogystal â'i waith i lunio barn ar y datganiadau ariannol, mae RSM UK Audit LLP wedi'i gyflogi i ddarparu adroddiadau gwerth am arian ar Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Cyllid, sydd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae manylion am gost gwasanaethau archwilio allanol wedi'u cynnwys yn y Nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cyn belled ag y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Pwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru



### Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr



### Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth y Gwasanaeth Archwilio Ariannol



### Gillian Body

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth y Gwasanaeth Archwilio Perfformiad



### Jane Holownia

Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol



### Mike Usher

Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog



### Kevin Thomas

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol



### Steve O'Donoghue

Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru



David Comer

Aelod Anweithredol



Amanda Hughes

Aelod a etholwyd o blith y staff



Kevin Thomas

Aelod a benodwyd o blith y staff



Steve Burnett

Aelod Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



Isobel Garner

Cadeirydd Anweithredol



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Prif Weithredwr



Lindsay Foyster

Aelod Anweithredol



Peter Price

Aelod Anweithredol



Louise Fleet

Aelod a etholwyd o blith y staff

**Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:**

Monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol

Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi cynllun blynyddol ac amcangyfrif o incwm a chostau

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol

O dan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhaid iddo wneud y canlynol ar gyfer pob blwyddyn ariannol:

- cadw cyfrifon priodol a chofnodion priodol mewn perthynas â hwy; a
- pharatoi datganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdanynt, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Swyddfa Archwilio Cymru, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Caiff cyfrifoldebau ychwanegol eu disgrifio yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys bod yn rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu:

- sicrhau bod trefniadau rheoli ariannol o safon uchel ar waith yn Swyddfa Archwilio Cymru a bod ei systemau a'i gweithdrefnau ariannol yn hyrwyddo'r broses o gynnal busnes yn effeithlon ac yn ddarbodus a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol;
- sicrhau mai dim ond i'r graddau ac at y diben a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol y caiff cronfeydd eu defnyddio;
- sicrhau bod yr adnoddau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol amdanynt yn cael eu rheoli a'u diogelu yn briodol ac yn dda; a
- rhoi cyngor i Swyddfa Archwilio Cymru ar bob mater yn ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- datgan a yw’r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw achosion perthnasol o wyro oddi wrthynt yn y cyfrifon; a
- pharatoi’r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail gronnol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru a’i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn cadarnhau:

- hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni;
- fy mod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi’u cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o’r wybodaeth honno; a
- bod yr adroddiad blynyddol a’r cyfrifon hyn yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a’r cyfrifon hyn a’r dyfarniadau sy’n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

## Datganiad llywodraethu

Mae'r datganiad hwn yn nodi strwythur rheoli Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi darlun o drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n ein hwynebu.

Mae fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u nodi yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn ac ymhlith gofynion eraill, mae'n rhaid i mi geisio sicrhau'r canlynol:

- bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith bob amser yn Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys proses archwilio mewnol drylwyr, er mwyn helpu i arfer swyddogaethau statudol yn briodol; a
- bod Swyddfa Archwilio Cymru yn taro'r cydbwysedd cywir drwy reoli cyfleoedd a risgiau mewn ffordd sy'n gymesur â busnes yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Llywodraethu corfforaethol

#### Y fframwaith llywodraethu

Mae fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys gwybodaeth am rychwant waith y Bwrdd a'i bwyllgorau, wedi'i grynhoi yn yr arddangosyn ar y dudalen nesaf.

Mae ein Bwrdd o naw aelod yn cynnwys mwyafrif o bum aelod anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd), yr Archwilydd Cyffredinol, aelod sy'n gyflogai a benodir ar argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol a dau aelod etholedig sy'n gyflogeion.

Mae Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol, ymhlith pethau eraill: dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan na all ef/hi weithredu; arfarnu perfformiad y Cadeirydd; cael adroddiadau gan rai sy'n chwythu'r chwiban y tu allan i'r gadwyn rheolwyr llinell arferol; a goruchwylio'r broses o ethol aelodau sy'n gyflogeion i'r Bwrdd.

Wrth wneud ei waith, mae'r Bwrdd yn cymhwyso Cynllun Dirprwyo ffurfiol, cylch gorchwyl sy'n cynnwys ei reolau gweithdrefnol, Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Chod Ymarfer sy'n Llywodraethu'r Berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n cyflawni swyddogaeth gynghori:

- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys dau aelod Bwrdd anweithredol, aelod Bwrdd etholedig sy'n gyflogai ac aelod annibynnol. Nid yw'r aelod Bwrdd etholedig sy'n gyflogai yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli nac yn cyfrannu at unrhyw benderfyniadau a wneir ar lefel uwch, ac eithrio fel rhan o'r Bwrdd.
- Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol yn cynnwys tri aelod anweithredol o'r Bwrdd ac aelod Bwrdd etholedig sy'n gyflogai, ond ni chaiff yr aelod etholedig sy'n gyflogai fod yn bresennol ar gyfer yr eitemau hynny lle ceir gwrthdaro buddiannau na ellir ei reoli na'i liniaru.

Mae'r ddau bwyllgor yn gweithredu yn unol â chylch gorchwyl a gymeradwywyd gan y Bwrdd, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o drefniadau adrodd blynyddol y pwyllgorau.

Rwyf wedi sefydlu Pwyllgor Rheoli i'm cynghori yn rhinwedd fy swydd fel Archwilydd Cyffredinol, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â chylch gorchwyl y cytunwyd arno ac y mae'n ei adolygu'n flynyddol.

Caiff y Bwrdd a'i Bwyllgorau, a'r Pwyllgor Rheoli, eu cynorthwyo gan Ysgrifennydd Bwrdd. Mae blaenraglen fusnes sy'n llywio eu hagenda amodol, a luniwyd i sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Ceir rhagor o wybodaeth am aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

## PWYLLGOR CYLLID Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

Craffu ar ddefnydd Swyddfa Archwilio Cymru o adnoddau, gwneud argymhellion ynghylch penodi'r Archwilydd Cyffredinol ac yn gyfrifol am benodi aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilydd allanol.

## BWRDD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Monitro'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
Cynghori'r Archwilydd Cyffredinol.
Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
Codi ffioedd am waith yr Archwilydd Cyffredinol.
Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi amcangyfrif o incwm a threuliau, cynllun ffioedd, cynllun blynyddol, adroddiad(au) interim ac adroddiad blynyddol.

## PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH AC ADNODDAU DYNOL

Cynghori'r Bwrdd drwy graffu ar dri maes eang sy'n gysylltiedig â rheoli a datblygu adnoddau dynol a'u herio:

a) llywodraethu;
b) perfformiad; a
c) pholisi a chydnabyddiaeth.

## PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRHAU RISG

Cynghori'r Bwrdd drwy wneud y canlynol:

a) adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ffynonellau sicrwydd corfforaethol;
b) adolygu cywirdeb yr adroddiad blynyddol a chyfrifon; a
c) rhoi barn ar y cymorth a roddir i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu gyflawni eu cyfryw rolau.

## Y PWYLLGOR RHEOLI

Cyfarwyddo a goruchwylio camau i gyflawni'r nod a'r amcanion, y strategaeth a'r blaenoriaethau tair blynedd, a'r rhaglenni gwaith arfaethedig a nodir yng nghydgynllun blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a’r pwyllgorau 2016-17

| | Bwrdd | ARAC | RHRC | MC |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd | 6 | 4 | 4 | 12 |
| **Aelodau o’r Bwrdd a’i bwyllgorau** | | | | |
| Isobel Garner[16] | 6 | 4 | | 1 |
| Steve Burnett | 6 | | 4 | |
| David Corner, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) | 6 | 4 | | |
| Peter Price, Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol (RHRC) | 6 | | 4 | |
| Lindsay Foyster | 6 | | 4 | |
| Huw Vaughan Thomas[17] | 5 | 4 | 4 | 9 |
| Kevin Thomas[18] | 6 | 4 | | 10 |
| Amanda Hughes | 6 | 3 | | |
| Louise Fleet | 5 | | 2 | |
| Alison Gerrard[19], Aelod Anweithredol Annibynnol o ARAC | 1 | 4 | | |
| **Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli (MC) nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd** | | | | |
| Anthony Barrett | 4 | | | 10 |
| Gillian Body | 5 | | | 12 |
| Mike Usher | 3 | | | 11 |
| Alan Morris[21] | 1 | 1 | | 8 |
| Steve O’Donoghue[22] | 4 | 4 | 4 | 10 |
| Jane Holownia | 1 | | | 6 |

16 Aeth Isobel Garner i un o gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.
17 Aeth Huw Vaughan Thomas i gyfarfodydd ARAC a RHRC yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu.
18 Aeth Kevin Thomas i gyfarfodydd ARAC yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.
19 Aeth Alison Gerrard i un o gyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedydd.
20 Aeth aelodau o’r Pwyllgor Rheoli i gyfarfodydd ARAC yn ôl yr angen i roi briffiadau, cymryd rhan mewn trafodaethau neu gael cyngor. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd.
21 Ymddeolodd Alan Morris o’i swydd fel Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol ar 2 Ionawr 2016 a chafodd ei olynu gan Jane Holownia ar y Pwyllgor Rheoli.
22 Mae’n rhaid i Steve O’Donoghue, fel Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Bwrdd, ARAC a RHRC.

## Darlun o drefniadau llywodraethu corfforaethol

Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod ei amcanion yn cael eu cyflawni drwy:

- adroddiadau rheoli mewnol, adroddiadau ar berfformiad a briffiadau amserol;
- adroddiadau mewnol annibynnol, gan gynnwys adroddiadau archwilio mewnol ac adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth; ac
- adroddiadau archwilio allanol.

Mae lefel y sicrwydd a geisir ac a ddarperir yn gymesur â'r lefelau risg cysylltiedig a aseswyd.

Nododd adroddiad blynyddol y cyn-Bwyllgor Cydnabyddiaeth ar gyfer 2015-16 fod cynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru yn neilltuo'r cyfrifoldeb am bennu polisïau adnoddau dynol i'r Bwrdd. Ym mis Tachwedd 2015, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i ailgyfansoddi'r Pwyllgor fel Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol gyda chylch gwaith ehangach i gynghori'r Bwrdd ar y fframwaith polisi adnoddau dynol a'i addasrwydd i helpu i gyflawni amcanion strategol Swyddfa Archwilio Cymru. Cynhaliodd y Pwyllgor newydd ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ar ôl cael ei gyfansoddi ym mis Gorffennaf 2016.

Yn 2016-17, gweithiodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg gyda'r Pwyllgor Rheoli i gynnal ymarfer mapio sicrwydd er mwyn mynd ati mewn ffordd systematig i gysoni rheolaethau a ffynonellau sicrwydd perthnasol â gofynion gwybodaeth y Bwrdd, a sicrhau'r canlynol:

- bod adroddiadau yn gynhwysfawr a chadarn, ac
- nad oes bylchau na dyblygu.

Ar ôl adolygu drafft rhagarweiniol o fap sicrwydd ar ddiwedd y flwyddyn, mae mwy o waith datblygu yn cael ei wneud ar hyn o bryd, gan gyfeirio'n benodol at fodel 'tair llinell amddiffyn' Trysorlys EM ar gyfer categoreiddio ffynonellau sicrwydd. Caiff drafft terfynol o'r map ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ym mis Medi 2017.

Roedd Ysgrifennydd y Bwrdd wedi cynnal cofrestr buddiannau'r Bwrdd, y mae'r aelodau yn ei hadolygu'n flynyddol. Cafodd y gofrestr ei diweddaru yn ystod y flwyddyn i gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol yn deillio o ddatganiadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Fel hyn, gellid sicrhau bod unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn cael eu nodi cyn cyfarfodydd lle bo hynny'n ymarferol a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i'w lliniaru.

Mae gan Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chadeiryddion ei phwyllgorau hawl mynediad a gallant hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn uniongyrchol am unrhyw faterion sy'n peri pryder.

Roedd gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r archwilydd allanol fynediad agored a chyfrinachol o hyd at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn breifat â'r archwilwyr mewnol ac allanol cyn pob cyfarfod.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydymffurfio â gofynion y Cod Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog i'r graddau bod y gofynion hynny yn berthnasol ac yn ymarferol. Nid oedd y trefniadau yn cydymffurfio â gofynion y Cod yn achos yr agweddau canlynol:

- Caiff cyfansoddiad y Bwrdd ei ragnodi drwy statud, a gallai cynnwys cynrychiolaeth gan weinidogion a swyddogion y llywodraeth beryglu fy annibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol.
- Nid yw'r Bwrdd wedi sefydlu pwyllgor enwebiadau ond caiff y swyddogaethau a ddisgrifir yn y Cod eu cyflawni gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol.

## Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Ym mis Medi 2016, ystyriodd y Bwrdd adroddiad gwerthuso annibynnol ar ei effeithiolrwydd. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y canlynol: tasgau'r Bwrdd fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol; cyfansoddiad, swyddogaeth ac adnoddau'r Bwrdd; cyfraniad unigolion i'r Bwrdd a dynameg grŵp; ac effaith y Bwrdd. Sefydlodd safle meincnod ar ddechrau 2015 a chwblhaodd werthusiad llawn o gynnydd yn erbyn y meincnod ym mis Gorffennaf 2016.

Daeth y gwerthusiad i'r casgliad canlynol:

'Mae hwn yn Fwrdd hynod o effeithiol sydd â digon o adnoddau ac sy'n parhau i ddatblygu ei berfformiad. Mae ganddo'r gallu a'r awydd i ddatblygu ymhellach er mwyn cael mwy o effaith. Mae'r Bwrdd wedi ymgymryd â'i gyfrifoldebau statudol mewn ffordd gadarn ac mae'n goruchwylio'r agweddau gweithredol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn dda. Y brif her i'r Bwrdd nawr yw sut i roi cyngor ar newidiadau strategol a'u goruchwylio yn y ffordd orau bosibl er mwyn ysgogi gwelliannau o ran perfformiad ac effaith y sefydliad.'

Ym mis Tachwedd 2016, cymeradwyodd y Bwrdd gynllun gweithredu i roi argymhellion yr adolygiad ar waith a bydd yn monitro cynnydd yn ystod 2017-18.

Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y risgiau posibl i'w effeithiolrwydd wrth i gyfnod penodiadau'r rhan fwyaf o'r aelodau anweithredol a'r aelodau etholedig sy'n gyflogeion ddod i ben yn ystod 2017 a 2018. Mae fy mhenodiad fel Archwilydd Cyffredinol hefyd yn dod i ben yn 2018. Mae'r Bwrdd yn gweithio â Phwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod trefniadau ar waith i sicrhau proses bontio effeithiol.

Ar ddiwedd 2016-17, roedd y Cadeirydd yn cwblhau arfarniadau o berfformiad aelodau, gan ddefnyddio mewnbwn gan Gadeiryddion pwyllgorau'r Bwrdd lle bo hynny'n briodol. Roedd yr Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol hefyd yn cwblhau arfarniad o berfformiad y Cadeirydd, gan gynnwys pennu amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fel rhan o'u gofynion adrodd blynyddol, mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad o'u heffeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi mabwysiadu rhestr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n cynnwys yr egwyddorion arfer da a ddisgrifir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio Trysorlys EM. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol wedi addasu'r rhestr wirio i sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn gymesur â'i anghenion. Mae'r Bwrdd yn fodlon ar gadernid yr asesiadau ac yn hapus nad oes unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2017, gan grynhoi casgliadau'r gwaith yr oedd wedi'i wneud yn ystod 2016-17.

Ar sail y gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, cadarnhaodd y Pwyllgor y canlynol:

- ei bod yn ymddangos bod y trefniadau rheoli risg strategol yn gweithio'n effeithiol a'u bod yn cysylltu â'r trefniadau gweithredol sydd ar waith ar lefel unedau busnes;
- bod y datganiad llywodraethu blynyddol drafft yn gyson â barn y Pwyllgor ar fframwaith rheoli Swyddfa Archwilio Cymru; ac
- nad yw'n ymddangos bod unrhyw fylchau sylweddol yn y fframwaith sicrwydd ond ei bod yn hollbwysig cwblhau'r map sicrwydd er mwyn cadarnhau hynny.

Asesodd y Pwyllgor berfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol gan ddefnyddio rhestrau gwirio a ddatblygwyd ar sail y rheini a ddefnyddir gan un o'r cwmnïau cyfrifyddu mawr.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar ansawdd y gwasanaeth archwilio allanol, ond derbyniodd yr archwilydd allanol fod lle i wella'r trefniadau cyswllt â'r gwasanaeth archwilio mewnol ymhellach (gan nodi cyfyngiadau safonau archwilio rhyngwladol).

O ran y gwasanaeth archwilio mewnol, nododd y Pwyllgor y trefniadau gwell ar gyfer casglu adborth yn ystod y flwyddyn a nododd fod ansawdd y systemau ariannol craidd yn dda. Hefyd, nododd y Pwyllgor fod pryderon a godwyd gan reolwyr yn ystod y flwyddyn am argaeledd sgiliau arbenigol i wneud gwaith anghyffredin yn cael sylw.

## Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol

Cyflwynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol ei adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ym mis Mehefin 2017.

Ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo ei raglen waith ym mis Gorffennaf, dechreuodd y Pwyllgor ddilyn patrwm busnes rheolaidd. Mae angen mwy o amser i sicrhau bod cwmpas cylch gwaith y Pwyllgor yn briodol a bod y Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol yng nghyd-destun swyddogaethau strategol y Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn ymwybodol y gall llawer o'i waith gael effaith uniongyrchol ar forâl staff a'r penderfyniadau dyddiol sy'n effeithio ar staff yn y ffordd fwyaf uniongyrchol. Roedd wedi cydnabod y cydbwysedd sydd ei angen o safbwynt darparu amgylchedd gwaith cefnogol sy'n galluogi staff i gyflawni eu dyheadau yng nghyd-destun diwallu anghenion y busnes.

Drwy gydol y flwyddyn, pwysleisiodd aelodau yr angen i bolisïau ac arferion adnoddau dynol gefnogi'r newid diwylliannol y mae'r Bwrdd yn ei geisio a phortreadu Swyddfa Archwilio Cymru fel cyflogwr deniadol mewn marchnad gystadleuol.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, fod y polisïau a adolygwyd ganddo yn ystod y flwyddyn yn gyson â gweledigaeth strategol y Bwrdd.

## Adroddiad yr archwilydd mewnol

Penodwyd BDO LLP yn archwilwyr mewnol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017. Cafodd cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2016-2019 ei baratoi i'w ystyried a chafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ar 25 Chwefror 2016.

Yn ystod 2016-17, cyhoeddodd BDO LLP saith adroddiad archwilio mewnol ar adolygiadau o reolaethau ariannol 2015-16 (interim a therfynol), buddiannau gweithredu platfform TG Insight, y fframwaith polisi a gweithdrefn, trefniadau llywodraethu gwybodaeth, rheolaethau ariannol 2016-17 (interim), trefniadau cynllunio'r gweithlu, a rheolaethau twyll.

## Crynodeb o’r lefelau sicrwydd a ddarparwyd drwy farnau adroddiadau archwilio mewnol yn 2015-16

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun y fframwaith rheolaeth fewnol | Sylweddol | | | 1 | 3 |
| | Cymedrol | | | | 3 |
| | Cyfyngedig | | | | |
| | Dim | | | | |
| | Lefel sicrwydd | Dim | Cyfyngedig | Cymedrol | Sylweddol |
| | | Effeithiolrwydd gweithredol rheolaethau mewnol | | | |

Yn ei ddatganiad sicrwydd blynyddol ar gyfer 2016-17, nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol:

‘Rydym yn fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi cael ei wneud i’n galluogi i ddod i gasgliad rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ein barn ni, ar sail yr adolygiadau a gafodd eu cynnal a’u cwblhau yn ystod y cyfnod, gallwn ddod i’r casgliad bod trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn gweithio’n ddigon effeithiol i roi sicrwydd rhesymol bod yr amcanion cysylltiedig o ran rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu wedi’u cyflawni’n gyffredinol erbyn diwedd y cyfnod adolygu.

Mae casgliadau a chanfyddiadau ein hadroddiadau yn ystod y flwyddyn yn cadarnhau, ar sail y dystiolaeth o’r archwiliadau a gynhaliwyd, nad oes unrhyw arwyddion o wendidau perthnasol yn y fframwaith rheoli.’

## Awydd am risg a rheoli risg

O gofio natur ein busnes, ni oddefir risg ym meysydd dyfarniadau archwilio proffesiynol, rheoleidd-dra, priodoldeb na rheoli ariannol. Mewn meysydd eraill, er enghraifft, mewn perthynas â chyfnewid arfer da ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cyhoedd, rydym yn barod i dderbyn mwy o risg er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gyflawni ein nod a'n hamcanion.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i fabwysiadu arfer gorau o ran nodi, gwerthuso a rheoli risgiau yn gosteffeithiol er mwyn sicrhau y cânt eu lleihau i lefel dderbyniol neu'u dileu. Cydnabyddir y bydd rhai risgiau yn bodoli bob amser ac na chânt eu dileu byth – ond rhaid monitro a rheoli'r rhain hefyd.

### Rheoli risg a'r gwasanaeth archwilio mewnol

Y Bwrdd sy'n bennaf cyfrifol am reoli risg, ac mae'n derbyn ac yn ystyried cofrestr risg strategol ac adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newidiadau arwyddocaol i broffil risg y sefydliad yn ystod pob cyfarfod.

Caiff y Bwrdd ei gynorthwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, sy'n adolygu ac yn cynghori'r Bwrdd mewn perthynas â'r canlynol:

- ei strategaeth risg, gan gynnwys priodoldeb dull Swyddfa Archwilio Cymru o bennu ei hawydd am risg;
- prosesau asesu risg cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru sy'n llywio penderfyniadau gweithredol;
- gallu Swyddfa Archwilio Cymru i nodi a rheoli risg;
- cylch gwaith y swyddogaeth rheoli risg, gan gynnwys ei mynediad at adnoddau a gwybodaeth er mwyn cyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol, yn rhydd rhag rheolaeth a chyfyngiadau eraill; ac
- ymatebolrwydd rheolwyr i asesiadau risg.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am y canlynol: cymeradwyo a goruchwylio'r ffordd y caiff polisi rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru ei roi ar waith a chytuno ar unrhyw adnoddau sydd eu hangen i helpu i wneud hyn o safbwynt corfforaethol; asesu a rheoli risgiau strategol; ac adolygu'r gofrestr risgiau gweithredol bob chwe mis.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynghori'r Bwrdd a'i bwyllgorau ar y system rheolaeth fewnol, a chaiff ei gynorthwyo i wneud hynny gan y Pwyllgor Rheoli.

## Asesu risg

Ym mhob un o’i gyfarfodydd yn 2016-17, ystyriodd y Bwrdd grynodeb o’r risgiau strategol allweddol a oedd yn wynebu’r sefydliad, ynghyd â chofrestr risgiau strategol fanylach a oedd:

- yn asesu lefelau risg cynhenid a thargedau risg penodedig;
- yn disgrifio’r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith i liniaru tebygolrwydd ac effaith risgiau a chyflawni targedau;
- yn asesu lefelau risg gweddilliol;
- yn nodi newidiadau o ran risg ac yn tynnu sylw at newidiadau a wnaed i reolaethau lliniaru ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf; ac
- yn crynhoi cynnwys y gofrestr drwy broffiliau a mapiau gwres o risgiau cynhenid a gweddilliol.

Amrywiodd nifer o risgiau strategol allweddol yn ystod y flwyddyn ac yn sgil hynny, treuliodd y Bwrdd a’r Pwyllgor Rheoli dipyn o amser arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- y ffaith nad yw lefelau capasiti a gallu presennol ein gweithlu yn bodloni gofynion ein hamgylchedd archwilio yn y dyfodol, yn enwedig o ran y gofyniad arfaethedig i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach, datganoli cyllidol, a chyflawni cyfrifoldebau’r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015; a
- phrinder arian o ffioedd, arian grant ac arian o Gronfa Gyfunol Cymru i alluogi’r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn ffordd sy’n cyflwyno’r lefelau effaith dymunol a gwerth ychwanegol.

Rwyf yn fodlon bod y risgiau hyn wedi cael eu monitro a’u rheoli’n effeithiol yn ystod y flwyddyn.

Yn 2015-16, cadarnhaodd y Bwrdd rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg o ran craffu ar y gofrestr risgiau strategol gan nodi y dylai ganolbwyntio ar brofi risgiau unigol er mwyn penderfynu a oedd y trefniadau yn gadarn ar y cyfan. Parhaodd y Pwyllgor â’r dull gweithredu hwnnw yn 2016-17 ac ystyriodd ddwy risg strategol, ynghyd ag adolygu’r gofrestr risgiau gweithredol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod ei adolygiadau manwl yn dangos bod trefniadau rheoli risg Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio’n effeithiol.

Cafodd nifer o risgiau eu rheoli’n llwyddiannus a’u dileu o’r gofrestr risgiau strategol yn ystod 2016-17. Cafodd y risgiau naill eu cau’n gyfan gwbl neu’u hisraddio i’r gofrestr risgiau gweithredol er mwyn i’r arweinydd risg perthnasol eu rheoli.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn wynebu nifer o risgiau newydd wrth edrych ymlaen at 2017-18, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein cofrestr risgiau strategol. Yn benodol:


- methu â manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ail-lunio ac ychwanegu gwerth at ein dull archwilio yng Nghymru;
- prinder sgiliau iaith Gymraeg i fodloni gofynion safonau newydd y Gymraeg; a
- chynllunio annigonol ar gyfer y goblygiadau posibl sy'n gysylltiedig â rhagor o ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus a diwygiadau cyfansoddiadol, gan gynnwys Brexit, a allai arwain at newidiadau i lwyth a natur gwaith archwilio.

Rydym wedi comisiynu gwaith i liniaru'r risgiau newydd hyn.

Byddaf yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n dda yn gyffredinol, bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau, a bod rheolaethau mewnol Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

## Proffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru

Ceir crynodeb o broffil risgiau strategol Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2017 yn y 'map gwres' canlynol, sy'n dangos nifer y risgiau strategol a lefelau'r risgiau gweddilliol a aseswyd ar ôl cymhwyso rheolaethau i liniaru eu heffaith a'u tebygolrwydd.



## Llywodraethu gwybodaeth

Fel Archwilydd Cyffredinol, mae gen i fynediad eang at wybodaeth er mwyn cyflawni fy swyddogaethau archwilio. Ynghlwm wrth yr hawliau mynediad statudol grymus hyn mae cyfrifoldeb i sicrhau bod y wybodaeth a dderbynnir gennyf i a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei diogelu'n briodol.

Felly, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru Bolisi Diogelwch Gwybodaeth sy'n amlinellu rhwymedigaethau a chyfrifoldebau staff, gofynion prosesu data, trefniadau monitro ac adrodd, ac yn egluro sut y gall staff gael mwy o gymorth ac arweiniad.

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn atebol i'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu ISO 27001, sef y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, gan addasu'r trefniadau yn unol ag anghenion y sefydliad.

Ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achosion yn ymwneud â data personol yn 2016-17.

Rydym yn ymrwymedig i weithio mewn ffordd agored a thryloyw fel busnes ac rydym wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17, cawsom 51 o geisiadau am wybodaeth, a gwnaethom fodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer pob un o'r ceisiadau hyn.

Ni chynhaliodd y Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw adolygiadau mewn perthynas â ni yn 2016-17.

## Chwythu'r Chwiban (mewnol)

Anogir pob aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru i godi pryderon ynghylch camymddygiad neu ddrwgweithredu a ddaw i'w sylw pan fyddant yn y gwaith. Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried bod nodi drwgweithredu yn fewnol yn gyfraniad pwysig at reoli risg gorfforaethol a sicrhau llywodraethu da.

Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban mewnol sefydledig sy'n adlewyrchu darpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sy'n nodi'r broses ar gyfer codi materion o'r fath, ac sy'n gymwys i staff Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl gontractwyr ac unigolion eraill sy'n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw ffordd.

Mae'n anodd asesu effeithiolrwydd ein trefniadau oherwydd nid ydym wedi cael unrhyw ddatgeliadau mewnol yn ystod y flwyddyn, nac yn ystod blynyddoedd blaenorol chwaith. Mae gennym drefniadau penodol ar gyfer rhoi gwybod am broblemau ynghylch llywodraethu gwybodaeth, fel bygythiadau posibl i ddiogelwch gwybodaeth, a gaiff eu gweithredu gan yr un staff sy'n gyfrifol am y trefniadau chwythu'r chwiban. Er na chaiff y trefniadau hyn eu defnyddio'n helaeth – dim ond llond llaw o bryderon a godwyd yn ystod y flwyddyn – mae hyn yn dangos bod y staff yn hyderus i roi gwybod am achosion pan fo hynny'n briodol.

# ADRODDIAD AR GYDNABYDDIAETH A STAFF

## Cydnabyddiaeth

### Archwilydd Cyffredinol Cymru

Pennir cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac, yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, daw'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na chael ei thalu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn bod yn dryloyw, caiff cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol ei dangos yn yr Adroddiad hwn ar Gydnabyddiaeth.

Penodwyd yr Archwilydd Cyffredinol presennol, Mr Huw Vaughan Thomas, gan Ei Mawrhydi'r Frenhines a dechreuodd yn ei swydd ar 1 Hydref 2010 am gyfnod o wyth mlynedd na ellir ei adnewyddu. Cost cyflog gros yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2016-17 oedd £153,000 (2015-16: £153,000).

Mae Mr Huw Vaughan Thomas wedi dewis cyfrif pensiwn partneriaeth (math o bensiwn cyfranddeiliaid personol y mae cyflogwr yn cyfrannu ato). Cyfrannodd y cyflogwr gyfanswm o £27,923 i'r cyfrif hwn yn ystod 2016-17 (ni chafwyd cyfraniadau gan yr aelod) (2015-16: £31,237 yn cynnwys £26,701 gan y cyflogwr a £4,536 gan yr aelod).

### Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys pum aelod anweithredol a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol, dau aelod etholedig sy'n gyflogeion, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r aelod sy'n gyflogai a enwebwyd ganddo, sef y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nid yw cydnabyddiaeth aelodau anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn bensiynadwy ac fe'i pennir gan y Cynulliad, ac yn achos y Cadeirydd, daw'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, caiff cydnabyddiaeth Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ei dangos yn yr adroddiad hwn. Penodwyd y ddau aelod etholedig sy'n gyflogeion gan aelodau anweithredol y Bwrdd, ar ôl pleidlais gan y staff ym mis Mai 2014. Caiff y lwfansau a roddir iddynt am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd eu pennu gan y Bwrdd[23] a'u dangos yn yr adroddiad hwn. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cael unrhyw lwfansau ychwanegol am eu dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Bwrdd.

**Caiff y wybodaeth ar dudalennau 70 i 80 yn yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ei harchwilio.**

23 Nid yw'r aelodau sy'n gyflogeion yn cymryd rhan yn y penderfyniad hwn.

## Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

| | Cydnabyddiaeth/ Lwfans | | Treuliau, gan gynnwys treth[24] | | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 | 2016-17 | 2015-16 |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Isobel Garner (Cadeirydd)[25] | 25,000 | 25,000 | 5,741 | 6,419 | 30,741 | 31,419 |
| Steven Burnett | 12,500 | 12,500 | 3,068 | 1,687 | 15,568 | 14,187 |
| David Corner[26] | 12,500 | 12,500 | 9,176 | 9,720 | 21,676 | 22,220 |
| Lindsay Foyster | 12,500 | 12,500 | 488 | 602 | 12,988 | 13,102 |
| Peter Price | 12,500 | 12,500 | 454 | 557 | 12,954 | 13,057 |
| Amanda Hughes[27] | 4,167 | 4,167 | 1,194 | 866 | 5,361 | 5,033 |
| Louise Fleet | 4,167 | 4,167 | 276 | 667 | 4,443 | 4,834 |
| **Cyfanswm** | **83,334** | **83,334** | **20,397** | **20,518** | **103,731** | **103,852** |

24 Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth neu'r lwfans am eu rôl, gall aelodau'r Bwrdd ac aelodau anweithredol pwyllgorau hawlio am eu costau teithio a threuliau. Caiff y rhwymedigaeth dreth bersonol mewn perthynas â'r treuliau hyn ei setlo gan Swyddfa Archwilio Cymru o dan Gytundeb Setliad TWE gyda CThEM.
25 Daw cydnabyddiaeth y Cadeirydd yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.  Caiff costau teithio a threuliau'r Cadeirydd eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Dangosir cydnabyddiaeth y Cadeirydd yma er mwyn bod yn dryloyw.
26 Mae David Corner yn byw yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr felly mae ei dreuliau yn adlewyrchu'r pellter teithio hirach i swyddfeydd Swyddfa Archwilio Cymru.
27 Mae Amanda Hughes a Louise Fleet yn aelodau sy'n gyflogeion o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u penodwyd gan yr aelodau anweithredol ym mis Mai 2014. Mae'r lwfansau a ddangosir uchod yn ymwneud â'u dyletswyddau fel aelodau o'r bwrdd yn unig.

## Aelodau anweithredol pwyllgorau

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi penodi aelod annibynnol o'i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Pennwyd cydnabyddiaeth y swydd hon gan y Bwrdd ac nid yw'n bensiynadwy.

### Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| | Cydnabyddiaeth | | Treuliau, gan gynnwys treth | | Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2016-17** | **2015-16** | **2016-17** | **2015-16** | **2016-17** | **2015-16** |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Alison Gerrard[28] | 5,000 | 5,000 | 142 | 184 | 5,142 | 5,184 |
| **Cyfanswm** | **5,000** | **5,000** | **142** | **184** | **5,142** | **5,184** |

## Staff Swyddfa Archwilio Cymru

Mae polisi tâl Swyddfa Archwilio Cymru ar gael ar ein gwefan.

Cyflogir pob aelod o staff gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyfryw delerau ac amodau a bennir gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth pob aelod o staff yn destun adolygiadau rheolaidd yn unol â strategaethau a bennir gan y Bwrdd a thrwy ymgynghori ag undebau llafur o dan gydgytundeb. Mae cydnabyddiaeth yn bensiynadwy o dan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru fel arfer yn dal swyddi penagored. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Wrth bennu strategaethau cyflog, mae'r Bwrdd yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell unigolion â galluoedd a chymwysterau addas o safon uchel;
- fforddiadwyedd cyffredinol;
- arferion cyflogau yn y sector cyhoeddus ehangach a sefydliadau cymharol; a
- rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys gofynion o ran cydraddoldeb a gwahaniaethu.

28 Daw tymor presennol Alison Gerrard yn y swydd i ben ym mis Medi 2017.

Mae'r ystodau cyflog ar gyfer pob aelod o staff ar gael ar ein gwefan. Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn talu bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad i unrhyw aelodau o staff, ond mae trefniadau arfarnu perfformiad ar waith sy'n atal codiadau cyflog os na fydd perfformiad yn foddhaol.

Yn ystod 2016-17, ni wnaed unrhyw daliadau i gyn-gyfarwyddwyr (2015-16: £15,265). Nodir isod fanylion cydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Pwyllgor Rheoli. Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd yn craffu ar grynodeb arfarnu perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol o aelodau'r Pwyllgor Rheoli.

## Cyfanswm ffigur unigol cydnabyddiaeth uwch reolwyr

| | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 | | | | | Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflog[29]** | **Buddiannau mewn da** | **Treuliau trethadwy[30]** | **Budd pensiwn** | **Cyfanswm ffigur unigol cydnabyd-diaeth** | **Cyflog** | **Buddiannau mewn da** | **Treuliau trethadwy** | **Budd pensiwn** | **Cyfanswm ffigur unigol cydnabyd-diaeth** |
| | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** | **Bandiau o £5,000** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £100 agosaf** | **I'r £1,000 agosaf** | **Bandiau o £5,000** |
| Anthony Barrett | 120-125 | 300 | 15,100 | 37 | 170-175 | 115-120 | 4,600 | 11,800 | 57 | 185-190 |
| Gillian Body | 120-125 | | | (1) | 120-125 | 120-125 | – | – | 39 | 160-165 |
| Jane Holownia[31] | 20-25 | | | 5 | 25-30 | – | – | – | – | – |
| Alan Morris[32] | 80-85 | 1,000 | | 59 | 140-145 | 95-100 | 2,800 | – | 72 | 170-175 |
| Steve O'Donoghue | 80-85 | | | 64 | 145-150 | 80-85 | – | – | 67 | 145-150 |
| Kevin Thomas | 120-125 | | 19,300 | 50 | 190-195 | 120-125 | – | 15,000 | 54 | 190-195 |
| Mike Usher | 105-110 | | | 33 | 135-140 | 105-110 | – | – | 41 | 145-150 |

29 Yn cynnwys Lwfans Teithio a dalwyd i Anthony Barrett (£4,816), Gillian Body (£5,160), Kevin Thomas (£5,160) a Jane Holownia (£754). Mae gan Mike Usher yr hawl i Lwfans Teithio ond nid arferodd yr hawl hon yn 2016-17 na 2015-16. Nid oes gan Steve O'Donoghue yr hawl i'r lwfans hwn.

30 Sef gwerth taliadau yn cynnwys treth a wnaed i Anthony Barrett a Kevin Thomas am deithio i brif weithle.

31 Ymunodd Jane Holownia â'r Pwyllgor Rheoli ym mis Ionawr 2017 yn dilyn ymddeoliad Alan Morris fel Arweinydd Sector ar gyfer Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol. Mae'r gydnabyddiaeth gyfatebol drwy'r flwyddyn ar gyfer ei rôl o fewn band 85-90 (gan gynnwys Lwfans teithio o £4,315).

32 Ymddeolodd Alan Morris ar ddiwedd mis Rhagfyr 2016. Cyflog am naw mis o'r flwyddyn a ddangosir yma.

## Cyflog

Mae ‘cyflog’ yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall (ee, lwfans trafnidiaeth) i’r graddau ei fod yn destun trethiant yn y DU.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cynrychioli buddiannau ceir ar brydles a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac a gaiff eu trin gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) fel budd trethadwy. Mae’r buddiannau hyn yn unol â hawl safonol i bob aelod o staff symudol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu budd-dal marw yn y swydd sy’n cyfateb i flwyddyn o gyflog ar gyfer unrhyw aelod o staff sy’n marw tra’n gweithio i Swyddfa Archwilio Cymru. Cost flynyddol y cynllun hwn yn 2016-17 oedd £18,679 (2015-16: £15,487). Polisi yswiriant grŵp yw hwn, ac fel y cyfryw ni ellir ei briodoli’n uniongyrchol i unrhyw aelod penodol o staff ac felly ni chaiff ei gynnwys yn y tabl uchod.

## Treuliau uwch aelodau o staff

Cyhoeddir gwybodaeth am dreuliau aelodau’r Pwyllgor Rheoli ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Pensiynau’r Gwasanaeth Sifil

Mae darpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn berthnasol i gyflogeion presennol Swyddfa Archwilio Cymru a chyn gyflogeion. Mae’r cynllun yn gynllun budd diffiniedig a’r Cynllun sy’n atebol, ac nid Swyddfa Archwilio Cymru. Telir costau’r buddiannau gan arian y mae’r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud cyfraniadau fel y’u pennir gan Swyddfa’r Cabinet i dalu hawliadau pensiwn cronedig staff a gyflogir.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar wefan PCSPS.

## Hawliadau pensiwn i uwch reolwyr

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2017 a chyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | CETV ar 31 Mawrth 2017 | CETV ar 31 Mawrth 2016 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniad y cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | I'r £100 agosaf |
| Anthony Barrett | 45-50 | 0-2.5 | 720 | 671 | 15 | – |
| Gillian Body | 50-55 ynghyd â chyfandaliad o 155-160 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-2.5 | 1,136 | 1,088 | (1) | – |
| Jane Holownia | 40-45 | 0-2.5 | 748 | 739 | 4 | - |
| Alan Morris | 60-65 | 2.5-5 | 1,172 | 1,120 | 58 | - |
| Steve O'Donoghue | 35-40 | 2.5-5 | 507 | 450 | 34 | – |
| Kevin Thomas | 50-55 | 2.5-5 | 797 | 738 | 24 | – |
| Mike Usher | 40-45 ynghyd â chyfandaliad o 105-110 | 0-2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0-110 | 716 | 672 | 13 | – |

## Gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod (CETV)

Y CETV yw gwerth y buddiannau cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'u cyfalafu'n actiwaraidd. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn drwy gydol ei gyfnod fel aelod o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei gyfnod yn yr uwch swydd y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir gan yr aelod ar ôl iddo brynu buddiannau pensiwn ychwanegol gyda'i arian ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o dreth lwfans oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd gwirioneddol mewn gwerthoedd trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Taliadau digolledu am golli swydd

Bydd Gillian Body yn gadael o dan delerau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol ar 30 Mehefin 2017. Caiff daliad digolledu o £177,000 yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Yn ystod 2016-17, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru gais am ddatganiadau o ddiddordeb gan staff i ymadael o dan y cynllun, fel rhan o drefniadau cynllunio'r gweithlu parhaus. Cafodd cais Gillian Body ei ystyried gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Bydd arbedion ynghylch yr ymadawiad hwn yn arwain at adennill cost y daledigaeth o fewn 14 o fisoedd.

## Datgeliad cyflog teg

Caiff y gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy’n ennill y cyflog mwyaf a chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu ei dangos yn y tabl canlynol.

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm cydnabyddiaeth[33] y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf heb gynnwys cyfraniadau pensiwn (£'000) | 140-145 | 135-140 |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth canolrifol yn seiliedig ar staff cyfwerth ag amser llawn (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn) | £44,065 | £43,850 |
| Ystod cyfanswm y gydnabyddiaeth heb gynnwys cyfraniadau pensiwn | £16,300-£141,452 | £18,219-£136,336 |
| Cymhareb cydnabyddiaeth | 3.21 | 3.11 |

Yn 2016-17, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na’r hyn a gafodd y cyfarwyddwr sy’n ennill y cyflog mwyaf (2015-16: dim). Roedd y gydnabyddiaeth yn amrywio o £16,300 i £141,452 (2015-16: £18,219 i £136,336). Roedd y gydnabyddiaeth isaf yn 2016-17 yn adlewyrchu lleoliadau profiad gwaith. Mae’r gydnabyddiaeth uwch i’r cyfarwyddwr sy’n ennill y cyflog mwyaf yn cynnwys cynnydd mewn treuliau trethadwy.

Er mwyn bod yn dryloyw, £153,000 oedd cyfanswm cydnabyddiaeth yr Archwilydd Cyffredinol (heb gynnwys cyfraniadau pensiwn), sef 3.47 gwaith cyfanswm cydnabyddiaeth ganolrifol Swyddfa Archwilio Cymru (2015-16: £153,000, cymhareb: 3.49).

## Ymgysylltiadau Oddi ar y Gyflogres

Nid oedd gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw gontractau yn ystod 2016-17 a oedd yn cyfateb i ddiffiniad Trysorlys EM o drefniadau oddi ar y gyflogres.

33 Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, lwfans teithio a buddiannau mewn da. Yn achos y cyfarwyddwr sy’n ennill y cyflog mwyaf, mae hefyd yn cynnwys treuliau trethadwy. Nid yw’n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerthoedd trosglwyddo sy’n cyfateb i arian parod pensiynau.

## Dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu trefniadau diswyddo gwirfoddol yn unol â rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd â gofynion cynllunio'r gweithlu ac wedi arwain at ostyngiadau i sylfaen costau staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Cost y cynllun yn 2016-17 oedd £695,700 (2015-16: Dim). Amcangyfrifir y bydd hyn yn cyflawni arbedion o £400,000 y flwyddyn.

Ymrwymodd 16 o gyflogeion i becynnau ymadael cymeradwy yn ystod 2016-17 fel y nodir isod:

| Band costau'r pecyn ymadael | 2016-17 | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau cytûn eraill | Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul band costau |
| Llai na £25,000 | – | 8 | 8 | – | – | – |
| £25,001-£50,000 | – | 3 | 3 | – | – | – |
| £50,001-£100,000 | – | 4 | 4 | – | – | – |
| £150,001-£200,000 | – | 1 | 1 | – | – | – |
| **Cyfanswm** | **–** | **16** | **16** | **–** | **–** | **–** |

Nid ymddeolodd unrhyw aelodau o staff yn gynnar am resymau iechyd yn ystod y flwyddyn.

# Adroddiad staff

## Uwch arweinwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr uwch aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn fesul band ar 31 Mawrth 2017

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| Band A (£88,163 - £115,678) | 3 | 3 |
| Band B (£77,911 - £102,252) | 3 | 3 |
| Band C (£70,223 - £88,824) | 8 | 8 |
| **Cyfanswm** | **14** | **14** |

Mae'r swyddi ym Mandiau A a B yn cynrychioli'r Pwyllgor Rheoli, a gaiff ei gadeirio gan yr Archwilydd Cyffredinol.  Ar y cyd â'r swyddi ym Mand C, maent yn cynrychioli'r Uwch Dîm Arwain.

## Niferoedd staff

Gwelwyd cynnydd o un yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd; bu gostyngiad o chwech yn nifer y staff parhaol a chynnydd o saith yn nifer y staff â chontractau cyfnod penodol. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd yn nifer yr hyfforddeion archwilio yn unol â'n hegwyddorion cynllunio'r gweithlu a'r fenter Datblygu Sgiliau Cyllid.

| | 2016-17 | 2015-16 (Ailddatganwyd)[34] |
|---|---|---|
| Nifer y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 217 | 223 |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gontractau cyfnod penodol yn y DU yn ystod y flwyddyn, ar gyfartaledd | 27 | 20 |
| Contractwyr archwilio ac arolygu (nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ar gyfartaledd) | 9 | 8 |

34 Ailddatganwyd niferoedd staff ar gyfer 2015-16 er mwyn addasu ar gyfer dechreuwyr newydd yn ystod y flwyddyn.

## Costau staff a chostau cysylltiedig

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau staff | 10,992 | 10,826 |
| Staff a secondiwyd i mewn | 69 | 210 |
| Staff ar gontractau byrdymor | 301 | 285 |
| Cydnabyddiaeth aelodau anweithredol | 68 | 68 |
| Costau nawdd cymdeithasol[35] | 1,294 | 1,095 |
| Costau pensiwn (PCPS) | 2,379 | 2,335 |
| Costau pensiwn (pensiynau cyfranddeiliaid) | 4 | 4 |
| | **15,107** | **14,823** |
| Lwfans trafnidiaeth a cheir ar brydles | 720 | 782 |
| Newidiadau cytundebol i'r cynllun ceir | - | 128 |
| Tanysgrifiadau[36] | 73 | 42 |
| | **15,900** | **15,775** |
| Staff ar gontractau byrdymor | 216 | 222 |
| | **16,116** | **15,997** |
| Costau dileu swyddi, ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | 702 | 31 |
| Llai arian a dderbyniwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | (45) | (45) |
| **Costau staff net** | **16,773** | **15,983** |

35 Mae costau nawdd cymdeithasol wedi cynyddu yn dilyn y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr o fis Ebrill 2016.
36 Ffioedd ar gyfer aelodaeth cyrff proffesiynol, profion llygaid ac archwiliadau iechyd.

## Gwasanaethau allanol

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £’000 | £’000 |
| Taliadau i gwmnïau cyfrifyddu preifat | 952 | 2,269 |
| Costau ymchwil a chostau ymgynghori eraill | 199 | 101 |
| | **1,151** | **2,370** |

Mae’r costau hyn yn ymwneud â gwasanaethau allanol a brynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau archwilio, arolygu, cyngor neu ymchwil. Mae’r gost wedi lleihau yn unol â gostyngiad a gynlluniwyd yn lefel y gwaith a osodir ar gontractau allanol fel rhan o gynllun arbedion hirdymor a threfniadau cynllunio’r gweithlu.

**Ni chaiff y wybodaeth ganlynol (tudalennau 81 i 84) yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ei harchwilio.**

## Polisïau staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae’n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â’r fframwaith diogelu yn erbyn gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.


Mae gennym gyfrifoldeb hefyd i gydymffurfio â’r confensiynau a nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd gwaith sy’n gwerthfawrogi amrywiaeth pawb, gan gynnwys ein staff ein hunain a’r rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy fel rhan o’n gwaith, ac rydym yn llawn gefnogi hawliau pobl i gael eu trin ag urddas a pharch.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb a’n hamcanion cysylltiedig. Mae ein hadroddiadau blynyddol ar ein cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb ar gael ar ein gwefan. Mae ein Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau y caiff pob aelod o staff â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys nam) eu trin yn deg ac yn gyfartal ym mhob agwedd ar gyflogaeth. Mae’r polisi yn darparu ar gyfer cydraddoldeb wrth ddethol ym maes cyflogi, recriwtio, dyrchafu, dysgu a datblygu a/neu unrhyw fudd arall, yn seiliedig yn llwyr ar gymhwysedd a gallu yn unol â’n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig.


Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro effaith y polisïau hyn gan ddefnyddio data a gesglir oddi wrth staff sy’n dewis rhoi gwybodaeth.

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| **Amrywiaeth** | **%** | **%** |
| Merched | 51.8 | 49.6 |
| O dan 35 oed | 21.7 | 20.6 |
| Rhwng 35 a 54 oed | 62.5 | 62.6 |
| 55 oed a throsodd | 15.8 | 16.8 |
| Staff ag anabledd | 8.7 | 8.0 |
| Staff o leiafrif ethnig | 3.2 | 2.7 |
| Staff LGBT+ | 4.0 | 3.1 |

## Dadansoddiad o oedran a rhyw staff 2016-17 (cyfrif pennau)



## Dosbarthiad graddau a rhyw staff 2016-17




| Dosbarthiad graddau | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| Canran y staff mewn bandiau uwch dîm arwain[37] (A i C) | 5.7 | 5.6 |
| Canran y staff mewn bandiau rheoli (6 a 7) | 19.9 | 21.6 |
| Canran y staff mewn bandiau cyflog goruchwyliol (4 a 5) | 37.0 | 33.2 |
| Canran y staff mewn bandiau cyflog eraill (1 i 3) | 37.4 | 39.6 |
| Canran staff yr uwch dîm rheoli sy'n ferched | 20.3 | 20.3 |
| Canran y staff rheoli sy'n ferched | 37.2 | 37.9 |
| Canran y staff mewn swyddi goruchwyliol sy'n ferched | 50.2 | 48.0 |
| Canran y staff mewn bandiau cyflog eraill sy'n ferched | 62.4 | 59.7 |


37 Ac eithrio'r Archwilydd Cyffredinol ac Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd.

## Absenoldeb oherwydd salwch

- Gostyngodd ein lefelau absenoldeb oherwydd salwch un diwrnod fesul person ar gyfartaledd oherwydd gostyngiad mewn salwch hirdymor.
- Roedd y ffigur absenoldeb cyffredinol fwy na thridiau yn llai na meincnod y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)[38], ac mae wedi cyrraedd ein targed corfforaethol, sef 6.5 diwrnod.

| | **2016-17** | **2015-16** |
|---|---|---|
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul aelod o staff | 6.5 | 7.3 |
| Oherwydd absenoldeb byrdymor | 3.9 | 3.9 |
| Oherwydd absenoldeb hirdymor (cyfnodau o ≥21 diwrnod) | 2.6 | 3.4 |

### Absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff rhwng 2012-13 a 2016-17





38 Cymedr o 9.8 diwrnod fesul cyflogai y flwyddyn ar gyfer y sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus hynny a ymatebodd i Arolwg Rheoli Absenoldeb blynyddol CIPD yn 2016.

## Ein gweithlu

- Bu cynnydd o 1% yng nghyfran y cyflogeion rhan amser yn 2016-17. Roedd y cynnydd hwn yn cynnwys gostyngiad o 1% ymhlith dynion a chynnydd o 2% ymhlith merched.
- Gostyngodd canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol gan adlewyrchu cynnydd yn nifer yr hyfforddeion archwilio ar gontractau hyfforddi pedair blynedd.
- Mae ein trosiant staff blynyddol wedi cynyddu i 10.5%. Er bod hyn yn uwch o gymharu â 2015-16, mae'n unol â blynyddoedd blaenorol.

| | **2016-17** | **2015-16** |
|---|---|---|
| **Patrymau gweithio** | | |
| Cyflogeion rhan amser fel canran o'r cyfanswm | 16.2 | 15.3 |
| I ddynion | 4.9 | 6.1 |
| I ferched | 26.7 | 24.6 |
| **Math o gontract cyflogaeth** | | |
| Canran y staff ar gontractau cyflogaeth parhaol | 88.5 | 90.5 |
| **Trosiant** | | |
| Canran trosiant staff flynyddol | 10.5 | 5.3 |




**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu

8 Mehefin 2017

# ADRODDIAD ARCHWILIO AC ALLDRO ADNODDAU

## Datganiad o Alldro Adnoddau 2016-17 a nodiadau sy'n gysylltiedig

Caiff y wybodaeth ar dudalennau 85 i 88 ei harchwilio.

Mae'r datganiad hwn yn cymharu'r Amcangyfrif ar gyfer 2016-17, fel y pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol arno ag incwm a gwariant gwirioneddol yn ystod y flwyddyn.

| | | Amcangyfrif 2016-17 | | | Alldro 2016-17 | | | | Alldro 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NODYN | | Gwariant | Incwm | CYFANSWM NET | Gwariant | Incwm | CYFANSWM NET | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | CYFANSWM NET |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| SORO1 | Refeniw | 23,393 | (16,715) | 6,678 | 21,747 | (15,261) | 6,486 | (192) | 5,807 |
| SORO1 | Cyfalaf | 250 | – | 250 | 222 | – | 222 | (28) | 39 |
| | Cyfanswm Adnoddau | 23,643 | (16,715) | 6,928 | 21,969 | (15,261) | 6,708 | (220) | 5,846 |
| SORO2 | Gofyniad Arian Parod Net | | | 6,728 | | | 6,233 | (495) | 6,003 |

Yn sgil gweithrediadau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17:

- y cyfanswm alldro net ar adnoddau refeniw oedd £192,000 o fewn yr adnoddau net cymeradwy o £6,678,000;
- yr alldro net ar wariant cyfalaf oedd £28,000 o fewn y gyllideb gyfalaf gymeradwy o £250,000;
- mae swm o £495,000 yn ad-daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru, sef swm yr arian parod a dynnwyd i lawr nas defnyddiwyd.

# Nodiadau i'r Crynodeb o Alldro Adnoddau

## Nodyn SORO1: Dadansoddiad o alldro adnoddau net 2016-17

| Alldro 2015-16 £'000 | | Amcangyfrif 2016-17 £'000 | Alldro 2016-17 £'000 | Amrywiant £'000 | Rheswm dros amrywiannau sylweddol yn erbyn yr Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|
| **Treuliau** | | | | | |
| 14,388 | Costau staff | 16,183 | 15,204 | (979) | Yn gysylltiedig â llai o incwm o ffioedd a grant is gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella |
| 507 | Staff contractwyr | 1,213 | 517 | (696) | Yn gysylltiedig â llai o incwm o ffioedd a grant is gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella |
| 1,258 | Teithio a chynhaliaeth | 1,414 | 1,232 | (182) | Yn gysylltiedig â llai o staff |
| 2,582 | Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 953 | 1,099 | 146 | a'i wrthbwyso gan incwm uwch na'r disgwyl o waith cwmnïau |
| 969 | Swyddfeydd | 986 | 912 | (74) | Costau ynni a chynnal a chadw is |
| 427 | TGCh | 459 | 455 | (4) | |
| 344 | Balans TAW anadenilladwy | 390 | 624 | 234 | Cynnydd mewn TAW anadenilladwy |
| 306 | Trefniadau Llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 332 | 32 | |
| 266 | Hyfforddiant allanol | 275 | 295 | 20 | |
| 167 | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 214 | 139 | (75) | Gwariant ymatebol yn bennaf |
| 145 | Cyfieithu dogfennau | 120 | 115 | (5) | |
| 603 | Costau eraill | 886 | 823 | (63) | |
| **21,962** | **CYFANSWM Y TREULIAU** | **23,393** | **21,747** | **(1,646)** | |
| **Incwm** | | | | | |
| (13,632) | Ffioedd archwilio | (14,066) | (13,263) | 803 | Cyfuniad o golli rhywfaint o waith archwilio ac amseriad gwaith – gweler y cysylltiad â chostau staff is. |
| (1,560) | Ffioedd ardystio grantiau | (1,663) | (1,540) | 123 | Yn unol â gostyngiadau a nodwyd yn flaenorol |
| (951) | Grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella | (986) | (433) | 553 | Ar ôl cymeradwyo'r Amcangyfrif ar gyfer 2016-17, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ostyngiad i'r grant hwn |
| (12) | Incwm arall | - | (25) | (25) | |
| **(16,155)** | **CYFANSWM YR INCWM** | **(16,715)** | **(15,261)** | **1,454** | |
| 5,807 | ADNODD REFENIW NET | 6,678 | 6,486 | (192) | |
| **39** | **GWARIANT CYFALAF** | **250** | **222** | **(28)** | |

Roedd incwm o ffioedd a grant Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella £1.5 miliwn yn is yn 2016-17 na'r swm a ragwelwyd pan gytunwyd ar Amcangyfrif 2016-17. O ganlyniad, bu'n rhaid gostwng ein costau staffio a chostau eraill yn unol â hynny drwy reoli swyddi gwag a gwneud llai o ddefnydd na'r bwriad o gontractwyr byrdymor. Er gwaetha'r heriau hyn, roedd cost net Swyddfa Archwilio Cymru £192,000 yn llai na'r swm a ragwelwyd pan gytunwyd ar yr Amcangyfrif.

Mae'r crynodeb rheoli ariannol ar dudalen 35 yn darparu esboniad pellach o gosteffeithlonrwydd yn Swyddfa Archwilio Cymru.


Llywodraethir incwm ffioedd archwilio gan y Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Dadansoddir yr incwm hwn yn Nodyn 1 i'r Datganiadau Ariannol.

## Nodyn SORO2: Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | | **2016-17** | | **2015-16** |
|---|---|---|---|---|
| | **Amcangyfrif** | **Alldro** | **Amrywiant** | **Alldro** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau refeniw | 6,678 | 6,486 | (192) | 5,807 |
| Adnoddau cyfalaf | 250 | 222 | (28) | 39 |
| Addasiadau: | | | | |
| Eitemau anariannol (dibrisiant) | (200) | (204) | (4) | (193) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio ac eithrio arian parod: | – | | | |
| -(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | – | (504) | (504) | 550 |
| -Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy ac incwm gohiriedig | | 98 | 98 | (14) |
| -Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau cyfredol | | 135 | 135 | (186) |
| **Cyfanswm y gofyniad arian parod net** | **6,728** | **6,233** | **(495)** | **6,003** |

## Tueddiadau gwariant hirdymor

Ers 2013-14, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi lleihau ei gwariant 8% mewn termau real[39], fel y dangosir isod. Mae'r arbediad cronnol a sicrhawyd yn ystod y blynyddoedd hynny yn cyfateb i £3.7 miliwn, sy'n lleihau'r galw ar Gronfa Gyfunol Cymru, ac eithrio ar gyfer cyfrifoldebau newydd, a'r swm sydd angen ei godi o ffioedd a godir ar gyrff archwiliedig.




Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio bob blwyddyn ar wariant ac incwm cyllidebol Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol o unrhyw rwymedigaethau pell wrth gefn a fydd yn effeithio ar gynlluniau gwariant hirdymor.

Fel y datgelir yn Nodyn 14 i'r Datganiad Ariannol, nid oedd unrhyw daliadau arbennig na cholledion i'w datgelu yn 2016-17.

39 Yn seiliedig ar ddatchwyddwyr CDG a gyhoeddwyd gan y SYG ym mis Mehefin 2016.

## Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rydym yn ardystio ein bod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Crynodeb o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am Lifau Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf 2013.

### Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2017 a'i chost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

### Barn ar reoleidd-dra

Rydym wedi ymgymryd â gwaith, fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, er mwyn cael sicrwydd rhesymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu; ac
- ni wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Disgrifir cwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol.

## Cwmpas yr archwiliad o reoleidd-dra

Mae'n ofynnol i ni gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny. Rydym wedi cynnal ein gwaith yn unol â Nodyn Ymarfer 10 y Bwrdd Arferion Archwilio yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn ein barn ni:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM o roddwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a nodir ar dudalen 53, mae Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am sicrhau yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn cyfeirio ato mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a mynegi barn arnynt. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am roi barn ar reoleidd-dra'r datganiadau ariannol

Rydym hefyd yn gyfrifol am roi barn sicrwydd resymol yr aed i'r gwariant y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef mewn modd cyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu ac na wariwyd yr arian hwnnw y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at ddiben penodol neu ddibenion penodol, ac eithrio at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y mae wedi'i gyfeirio ato yn unig yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ac nid at unrhyw ddiben arall. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio fel y gallaf ddatgan i Gynulliad Cenedlaethol Cymru y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un arall heblaw am Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Mae RSM UK Audit LLP wedi ardystio'r cyfrifon hyn ac adrodd arnynt yn eu ffurf gwreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hwn, ac nid RSM UK Audit LLP.

RSM UK Audit LLP
Dyddiad

Archwilwyr Cofrestredig
Davidson House
Forbury Square
Reading
RG1 3EU

# DATGANIADAU ARIANNOL

## DATGANIADAU ARIANNOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU, YNGHYD Â NODIADAU ATEGOL AC ESBONIADOL

# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | Nodyn | 2016-17<br>£'000 | 2015-16<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff a chostau cysylltiedig | Adroddiad staff[40] | 16,773 | 15,983 |
| Gwasanaethau allanol | Adroddiad staff | 1,151 | 2,370 |
| Costau gweithredu eraill | 3 | 3,823 | 3,609 |
| | | **21,747** | **21,962** |
| Incwm | | | |
| Incwm o ffioedd archwilio | 1 | (14,803) | (15,192) |
| Grant arolygu | 1 | (433) | (951) |
| Incwm gweithredu arall | 2 | (25) | (10) |
| | | **(15,261)** | **(16,153)** |
| **Gwariant net** | | **6,486** | **5,809** |
| Llog derbyniadwy | | - | (2) |
| **Gwariant net ar ôl treth a llog** | | **6,486** | **5,807** |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **6,486** | **5,807** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 98 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Ni chafwyd unrhyw weithrediadau a derfynwyd, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod nac unrhyw enillion na cholledion anghydnabyddedig.

40 Nodyn costau staff ar dudalen xx yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2017

| | Nodyn | 31 Mawrth 2017 £'000 | 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 590 | 533 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 149 | 188 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **739** | **721** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo | 6 | 2,136 | 1,633 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 7 | 550 | 549 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 8 | 2,789 | 2,950 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **5,475** | **5,132** |
| **Cyfanswm asedau** | | **6,214** | **5,853** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9 | (2,253) | (2,225) |
| Incwm gohiriedig | 10 | (2,290) | (2,220) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill | 11 | (485) | (350) |
| Cronfa Gyfunol Cymru (gweler y Crynodeb o Alldro Adnoddau) | | (495) | (143) |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **(5,523)** | **(4,938)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **691** | **915** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill | 11 | (765) | (736) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | | (765) | (736) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau** | | **(74)** | **179** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (74) | 179 |
| | | **(74)** | **179** |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 97 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 94 i 113 gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 8 Mehefin 2017 ac fe'u llofnodir ar ei ran gan:

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddog Cyfrifyddu
8 Mehefin 2017

# Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£’000** | **£’000** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant net cynhwysfawr | | 6,486 | 5,807 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol: dibrisiant ac amorteiddio | 3 | (204) | (193) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn darpariaethau | 11 | (164) | 220 |
| **Newidiadau mewn cyfalaf gweithio** | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 6, 7 | 504 | (550) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 9,10 | (98) | 14 |
| Gostyngiad wrth ddosbarthu cronfeydd wrth gefn i gyrff llywodraeth leol | 9,10 | - | 2 |
| **All-lif arian parod net a ddefnyddiwyd o weithgareddau gweithredu** | | **6,524** | **5,300** |
| | | | |
| **Llifau arian parod a ddefnyddiwyd o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 190 | 35 |
| Prynu asedau anniriaethol | 5 | 32 | 4 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **222** | **39** |
| | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | (6,728) | (6,146) |
| Ad-daliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | | 143 | 698 |
| **Ariannu net** | | **(6,585)** | **(5,448)** |
| **Symudiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 8 | **161** | **(109)** |

**Mae’r nodiadau sy’n dilyn ar dudalennau 97 i 113 yn rhan o’r datganiadau ariannol hyn.**

# Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | £'000 |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | (17) |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2015-16 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (5,807) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 6,146 |
| | 322 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (143) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | **179** |
| Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr yn 2016-17 | |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | (6,486) |
| Arian o Gronfa Gyfunol Cymru | 6,728 |
| | 421 |
| Yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru[41] | (495) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | **(74)** |

**Mae'r nodiadau sy'n dilyn ar dudalennau 97 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.**

41 Fel y nodwyd yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar gyfer 2016-17 (tudalen 85).

## Nodiadau i’r Datganiadau Ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2016-17, a gyhoeddwyd gan yr awdurdodau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol fel y nodir yn Nodyn 17: Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.

Mae’r polisïau cyfrifyddu yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE fel y’u haddaswyd neu’u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Lle y caniatâ’r FReM ddewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn rhoi darlun gwir a theg o’r sefyllfa. Disgrifir polisïau pwysig a fabwysiadwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ochr yn ochr â’r nodyn y maent yn cyfeirio ato. Fe’u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrid eu bod yn berthnasol mewn perthynas â’r cyfrifon.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir ffigurau mewn punnoedd sterling, sef arian cyfred gweithredol Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi’u talgrynnu i’r £1,000 agosaf.

Trafodir effaith bosibl IFRS 16 (Prydlesi) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ond nad yw’n weithredol tan 1 Ionawr 2019 yn Nodyn 12.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd eraill a gyhoeddwyd, ond nad ydynt yn weithredol eto, a fyddai wedi cael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi’u cymhwyso i’r cyfnod adrodd hwn.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio yn unol â threfniadau ariannu blynyddol drwy statud. Er i gyllid y pleidleisiwyd i’w ddyfarnu gael ei gymeradwyo am naw mis yn unig ar ôl dyddiad llofnodi’r datganiadau hyn, caiff Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod hydref 2017-18 ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff cyllid ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.

### Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd barn

- Cydnabyddir refeniw ar sail amser a godir ar brosiectau wedi’i addasu lle bo hynny’n gymwys i adlewyrchu cam cwblhau’r gwaith. Cynhelir asesiad ar ddiwedd y flwyddyn i ystyried rhesymoldeb yr incwm a gydnabyddir gan ystyried y gost er mwyn cwblhau prosiectau archwilio. Caiff incwm a gydnabyddir cyn i anfonebau gael eu paratoi ei drin fel Gwaith sy’n mynd Rhagddo (gweler Nodyn 6). Caiff incwm a dderbynnir cyn i’r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu’n incwm gohiriedig (gweler Nodyn 10).
- Gwnaed darpariaethau lle mae’n fwy tebygol na pheidio, ym marn y swyddog cyfrifyddu, bod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei hamcangyfrif yn gywir ar hyn o bryd. (Gweler Nodyn 11).

## Nodyn 1 (a): Segmentau gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru

### 2016-17

| | **Archwilio ariannol** | **Archwilio perfformiad** | **Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (11,161) | (3,642) | | (14,803) |
| Grant | | (433) | | (433) |
| Incwm arall | | | (25) | (25) |
| Cyfanswm | (11,161) | (4,075) | (25) | (15,261) |
| Gwariant | 11,118 | 4,118 | 6,511 | 21,747 |
| | **(43)** | **43** | **6,486** | **6,486** |

### 2015-16

| | **Archwilio ariannol** | **Archwilio perfformiad** | **Gweithgareddau a ariannwyd o Gronfa Gyfunol Cymru** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ffioedd archwilio | (11,585) | (3,607) | – | (15,192) |
| Grant | – | (951) | – | (951) |
| Incwm arall | – | – | (10) | (10) |
| Cyfanswm | (11,585) | (4,558) | (10) | (16,153) |
| Gwariant | 11,924 | 4,221 | 5,817 | 21,962 |
| | **339** | **(337)** | **5,807** | **5,809** |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cofnodi incwm a gwariant ar ei dwy brif swyddogaeth archwilio y codir ffioedd amdanynt a hefyd ar gyfer gweithgareddau a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

## Cysoni â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwariant net yn unol â'r dadansoddiad uchod | 6,486 | 5,809 |
| Llog derbyniadwy[42] | – | (2) |
| Yn unol â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 6,486 | 5,807 |

## Nodyn 1 (b): Dadansoddiad o incwm o ffioedd archwilio

| | 2016-17 | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Archwilio ariannol | Archwilio perfformiad | Cyfanswm | Archwilio ariannol | Archwilio perfformiad | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Archwilio Llywodraeth Leol | (5,772) | (2,381) | (8,153) | (5,841) | (2,217) | (8,058) |
| Ardystio Grantiau Llywodraeth Leol | (1,540) | | (1,540) | (1,560) | - | (1,560) |
| Y GIG | (2,009) | (1,261) | (3,270) | (2,090) | (1,389) | (3,479) |
| Archwilio Llywodraeth Ganolog | (1,840) | | (1,840) | (2,094) | (1) | (2,095) |
| | (11,161) | (3,642) | (14,803) | (11,585) | (3,607) | (15,192) |

Pennir y ffioedd a godir am waith archwilio yn unol â Chynllun Ffioedd y cytunwyd arno gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

42 Bellach, delir pob balans arian parod o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, felly nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn llog ar y balansau hyn mwyach.

## Nodyn 2: Incwm gweithredu arall

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm amrywiol[43] | (25) | (10) |
| | (25) | (10) |

Cydnabyddir incwm ffioedd gros ac incwm gweithredu arall yn seiliedig ar werth gwaith y codir tâl amdano heb gynnwys TAW. Caiff y gwerth hwn ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser a cham cwblhau prosiectau.

Caiff incwm gweithredu, p'un a ddaw drwy grantiau uniongyrchol gan y llywodraeth neu ffioedd a godir ar gyrff a archwilir, ei gredydu i'r flwyddyn gyfrif y gwneir y gwaith ynddi. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r gwaith gael ei wneud ei ddosbarthu'n incwm gohiriedig (gweler Nodyn 10). Caiff gwaith a wneir cyn i'r incwm gael ei dderbyn ei ddosbarthu'n waith sy'n mynd rhagddo (gweler Nodyn 6). Ni chaiff arian a dynnir o Gronfa Gyfunol Cymru ei ystyried yn grant uniongyrchol gan y llywodraeth a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i ecwiti trethdalwyr.

## Nodyn 3: Costau gweithredu eraill

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Swyddfeydd | | |
| Costau prydlesi rhent | 453 | 482 |
| Costau gweithredu eraill | 384 | 407 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 1,805 | 1,598 |
| Recriwtio | 69 | 61 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 204 | 193 |
| Ffioedd proffesiynol | | |
| Gwasanaethau archwilio mewnol | 39 | 49 |
| Ffioedd archwilio allanol | 36 | 40 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 64 | 78 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | 512 | 476 |
| Hyfforddi a datblygu staff | 257 | 225 |
| | 3,823 | 3,609 |

Ni ddarparodd ein harchwilwyr allanol unrhyw wasanaethau nad oeddent yn ymwneud ag archwilio yn ystod 2016-17.

43 Mae incwm amrywiol yn cynnwys taliadau am hyfforddiant a ddarperir, defnydd personol o ffonau symudol a thaliadau a ailgodir am luniaeth.

## Nodyn 4: Eiddo, offer a chyfarpar

| 2016-17 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 1,296 | 306 | 132 | 1,734 |
| Ychwanegiadau | 68 | 86 | 36 | 190 |
| Gwarediadau[44] | (35) | (15) | (8) | (58) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 1,329 | 377 | 160 | 1,866 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 907 | 186 | 108 | 1,201 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 79 | 43 | 13 | 135 |
| Gwarediadau | (37) | (15) | (8) | (60) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 949 | 214 | 113 | 1,276 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 380 | 163 | 47 | 590 |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 389 | 120 | 24 | 533 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 380 | 163 | 47 | 590 |

44 Mae gwarediadau asedau yn 2016-17 yn ymwneud â gosodiadau, seilwaith TG ac offer sydd wedi'u dibrisio'n llawn yn swyddfa Ewloe.

| 2015-16 | Dodrefn a ffitiadau £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Offer swyddfa £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 1,377 | 272 | 138 | 1,787 |
| Ychwanegiadau | – | 35 | – | 35 |
| Gwarediadau | (81) | (1) | (6) | (88) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 1,296 | 306 | 132 | 1,734 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 907 | 152 | 105 | 1,164 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 79 | 35 | 9 | 123 |
| Gwarediadau | (79) | (1) | (6) | (86) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 907 | 186 | 108 | 1,201 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 389 | 120 | 24 | 533 |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 470 | 120 | 33 | 623 |
| **Ariannu asedau** | | | | |
| A berchenogir | 389 | 120 | 24 | 533 |

Caiff asedau sefydlog eu dal ar gost wedi'i dibrisio.

O dan bolisi cyfalafu Swyddfa Archwilio Cymru, cyfalafir offer cyfrifiadurol unigol ac wedi'i grwpio a meddalwedd gwerth dros £5,000, offer arall gwerth dros £1,000 a gwaith adnewyddu swyddfa. Cyfrifir dibrisiant o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased.

Byddai gwariant dilynol ar asedau sy'n bodloni'r meini prawf cyfalafu hyn yn cael eu cyfalafu ymhellach. Byddai eitemau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu trin fel gwariant refeniw yn ystod y flwyddyn.

Darperir dibrisiant ar bob ased eiddo, offer a chyfarpar ac fe’i cyfrifir i ddibrisio cost pob ased, llai y gwerth amcangyfrifedig dros ben, mewn rhandaliadau blynyddol cyfwerth yn ystod ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dodrefn a ffitiadau (gan gynnwys seilwaith TG) | 10 mlynedd (neu oes yr ased neu hyd y brydles ar gyfer ffitiadau mewn adeiladau ar brydles, pa un bynnag sydd fyrraf) |
| Offer cyfrifiadurol | Tair blynedd |
| Offer swyddfa | Pum mlynedd |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost adnewyddu wedi’i dibrisio.

## Nodyn 5: Asedau anniriaethol

Caiff asedau anniriaethol, sef trwyddedau meddalwedd, eu datgan ar gost hanesyddol wedi'i hamorteiddio. Caiff yr asedau eu hamorteiddio ar sail llinell syth naill ai dros gyfnod y drwydded neu oes economaidd ddefnyddiol yr ased (pum mlynedd), pa un bynnag sydd fyrraf). Cyfrifir amorteiddiad o ddyddiad dechrau oes ddefnyddiol yr ased anniriaethol.

| | Cyfanswm |
|---|---|
| **2016-17** | **£'000** |
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 479 |
| Ychwanegiadau | 32 |
| Gwarediadau[45] | (8) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 503 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 291 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 71 |
| Gwarediadau | (8) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 354 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 149 |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 188 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 149 |

45 Sef cost, wedi'i dibrisio'n llawn, y cysylltiad â rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Byd Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) yn swyddfa Ewloe.

| 2015-16 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 829 |
| Ychwanegiadau | 4 |
| Gwarediadau | (354) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 479 |
| **Amorteiddio** | |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 577 |
| Darparwyd yn ystod y cyfnod | 68 |
| Gwarediadau | (354) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 291 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 188 |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 252 |
| **Ariannu asedau** | |
| A berchenogir | 188 |

Ym marn yr Archwilydd Cyffredinol, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth llyfr net asedau ar werthoedd presennol ac ar eu cost hanesyddol.

Ni ddelir rhestrau eiddo perthnasol.

## Nodyn 6: Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo

Caiff symiau derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo eu prisio ar werth gwireddadwy amcangyfrifedig. Mae gwaith sy'n mynd rhagddo yn cyfeirio at symiau sy'n daladwy am waith a gwblhawyd lle nad yw'r ffi wedi'i chodi eto neu lle bo'r gwaith a wnaed yn perthyn i gyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Fe'i nodir ar sail y gost lawn llai darpariaeth am golledion rhagweladwy a symiau a gafodd eu bilio ar y cyfrif. Câi darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy ei phennu pan fo tystiolaeth na fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu adennill pob swm sy'n ddyledus yn unol â'r contractau.

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | | |
| Llywodraeth ganolog | 161 | 41 |
| Llywodraeth leol | 449 | 257 |
| Y GIG | 178 | 52 |
| Y tu allan i'r llywodraeth | 25 | 26 |
| Gwaith sy'n mynd rhagddo | | |
| Llywodraeth ganolog | 609 | 553 |
| Llywodraeth leol | 704 | 703 |
| Y GIG | 10 | 1 |
| | 2,136 | 1,633 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

Ni fu angen darpariaeth ar gyfer drwgddyledion a dyledion amheus yn 2016-17 (2015-16: dim angen).

## Nodyn 7: Symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig[46] | 546 | 548 |
| Benthyciadau i gyflogeion[47] | 4 | 1 |
| | 550 | 549 |

Nid oes symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod.

## Nodyn 8: Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys yr holl gronfeydd a ddelir mewn cyfrifon y gall Swyddfa Archwilio Cymru gael gafael arnynt ar unwaith. Mae'r cyfrif cyfredol yn cynnwys cyfleuster llog dros nos.

Yn ystod 2016-17, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru y broses o drosglwyddo ei holl gronfeydd i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn unol â'r argymhellion yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Cafodd cyfrifon masnachol eu cau yn ddiweddarach o ganlyniad i hyn.

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 2,950 | 2,841 |
| Newid net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (161) | 109 |
| Balans ar 31 Mawrth | 2,789 | 2,950 |

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyfrif cyfredol (Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth) | 2,789 | 1,748 |
| Cyfrif cyfredol (Cyfrifon Masnachol) | – | 1,202 |
| | 2,789 | 2,950 |

46 Blaendaliadau rhent a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag eiddo yn bennaf.
47 Cynllun beicio i'r gwaith a rhagdaliadau ar gyfer cynlluniau aberthu cyflog drwy brydlesi ceir.

## Nodyn 9: Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau masnach taladwy (sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 431 | 410 |
| TAW | 62 | 61 |
| Trethiant a chostau nawdd cymdeithasol | 352 | 340 |
| Croniadau ar gyfer hawl gwyliau nas cymerwyd eto | 509 | 519 |
| Croniadau eraill[48] | 899 | 895 |
| | 2,253 | 2,225 |

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at dalu 95% o'r holl anfonebau gan gyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod o'u derbyn ac 84% o fewn 10 diwrnod. Yn 2016-17, talwyd 98.6% o fewn 30 diwrnod a thalwyd 77.2% o fewn 10 diwrnod.

## Nodyn 10: Incwm gohiriedig

Caiff incwm o ffioedd archwilio a gydnabyddir yn ein cyfrifon ei asesu drwy gyfeirio at daliadau amser ac adolygu gwaith sy'n mynd rhagddo. Rydym yn anfonebu am y rhan fwyaf o'n gwaith ar sail rhandaliadau drwy gydol y flwyddyn. Mae incwm gohiriedig yn cyfeirio at incwm sydd wedi'i filio ond sydd heb ei gydnabod eto.

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | 2,290 | 2,220 |
| | 2,290 | 2,220 |

48 Mae'r rhan fwyaf o'r croniadau eraill (£646,000) yn ymwneud ag anfonebau am symiau masnach sy'n daladwy a dderbyniwyd ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae £253,000 yn ymwneud â chyfraniadau pensiwn ar gyfer mis Mawrth 2017, a dalwyd ym mis Ebrill 2017.

## Nodyn 11: Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Cydnabyddir darpariaethau lle y gellir amcangyfrif rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo buddiannau economaidd mewn modd dibynadwy.

Caiff darpariaethau eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r symiau sydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith gwerth amser arian yn berthnasol, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar werth presennol y symiau hynny, wedi'u disgowntio yn ôl y gyfradd ddisgowntio cyn-treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth. Cydnabyddir y ffaith bod y disgownt wedi dirwyn i ben o fewn llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg.

| | Dadfeiliadau[49] | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau[50] | CThEM | Gadael y cynllun ceir | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 625 | 221 | 62 | 178 | 1,086 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 36 | 433 | – | – | 469 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (21) | (42) | – | (171) | (234) |
| Darpariaethau a ryddhawyd yn ystod y flwyddyn | (9) | – | (62) | – | (71) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 631 | 612 | – | 7 | 1250 |

### Dadansoddiad o'r amseru disgwyliedig:

| | Dadfeiliadau | Ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau | CThEM | Gadael y cynllun ceir | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | – | 479 | – | 6 | 485 |
| Dros flwyddyn ond o fewn pum mlynedd | – | 133 | | 1 | 134 |
| Dros bum mlynedd | 631 | – | | | 631 |
| | 631 | 612 | – | 7 | 1,250 |

49 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES (2016) 10, sef -2.7% ar gyfer balansau o 0-5 mlynedd a -1.95% ar gyfer 5 i 10 mlynedd, i gyfrifo'r balans hwn.

50 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio cyfradd ddisgowntio Trysorlys EM fel y nodir yn PES (2016) 10, sef 0.24%, i gyfrifo'r balans hwn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau'n rhoi amcangyfrif o'r costau y gallai Swyddfa Archwilio Cymru fynd iddynt wrth wella'r eiddo a brydlesir ganddi ar ddiwedd y prydlesi.

Cronnodd y ddarpariaeth hon drwy dâl dadfeiliadau blynyddol, a gyfrifwyd drwy gymhwyso cyfradd ddadfeilio flynyddol i arwynebedd llawr yr asedau ar brydles. Rhoddir cyfrif am rwymedigaethau dadfeilio sy'n ymwneud â chost newidiadau adfer a wnaed i adeiladau ar brydles drwy ddarpariaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn y nodwyd y gost, yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd gan dirfesurwyr annibynnol. Caiff darpariaethau o'r fath eu cyfalafu a'u dibrisio dros oes yr ased neu gyfnod y brydles, pa un bynnag sydd fyrraf.

Mae'r darpariaethau ar gyfer ymddeoliadau cynnar a diswyddiadau'n cyfeirio at rwymedigaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn y dyfodol mewn perthynas ag aelodau o staff sydd wedi gadael o dan gynlluniau dileu swyddi, ymddeol yn gynnar a diswyddo.

Roedd darpariaeth CThEM ar ddechrau'r flwyddyn yn ymwneud ag achos posibl o dandalu cyfraniadau treth TWE ac yswiriant gwladol mewn perthynas â'r budd-dal Marw yn y Swydd i Gyflogai. Rydym bellach wedi dod i gytundeb â CThEM nad yw hyn yn cyfateb i fudd trethadwy ac felly nid oes unrhyw symiau yn ddyledus.

Mae'r ddarpariaeth cynllun ceir yn adlewyrchu ymrwymiad i ddigolledu staff sydd wedi cytuno i ildio'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â darparu ceir ar brydles a'r lwfans trafnidiaeth. Sefydlwyd y ddarpariaeth hon yn 2015-16 a chafodd y mwyafrif helaeth o gyflogeion cymwys daliadau yn 2016-17. Mae'r balans gweddilliol yn ymwneud â chyflogeion nad yw eu trefniadau prydlesu ceir wedi dod i ben eto.

## Nodyn 12: Prydlesi gweithredu

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru brydlesi gweithredu ar gyfer ceir ac ar gyfer ei swyddfeydd gweithredol. Codir tâl am rentu prydlesi gweithredol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Caiff cymhellion prydles a dderbynnir eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan annatod o gyfanswm treuliau prydlesi. Lle y cynigir cyfnodau heb rent i Swyddfa Archwilio Cymru o fewn prydlesi, caiff y budd hwnnw ei gredydu ar sail gyson dros y cyfnod o ddechrau'r brydles tan yr adolygiad rhent cyntaf.

Roedd isafswm taliadau prydlesi cyfanredol ar 31 Mawrth 2017 o ran prydlesi ceir na ellir eu canslo:

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 34 | 21 |
| Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd | 184 | 204 |
| | 218 | 225 |

Roedd isafswm taliadau prydlesi cyfanredol ar 31 Mawrth 2017 o ran prydlesi tair swyddfa. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru dair swyddfa weithredol yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele. Llofnodwyd prydles newydd ym mis Mawrth 2016 am swyddfa yn Abergele a ddisodlodd y swyddfa yn Ewloe ym mis Mehefin 2016.

| | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | Nifer yr eiddo | £'000 | Nifer yr eiddo |
| O fewn blwyddyn | 443 | 3 | 452 | 4 |
| Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd | 1,774 | 3 | 1,634 | 2 |
| Dros bum mlynedd | 385 | 3 | 792 | 2 |
| | 2,602 | | 2,878 | |

Adolygir rhent prydlesi swyddfeydd yn rheolaidd.

Mae IFRS16 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016 ond nad yw'n weithredol tan 1 Ionawr 2019 yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod pob prydles â chyfnod prydlesu o fwy na 12 mis fel asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol. Nid yw'n hysbys eto a gaiff y safon hon ei mabwysiadu o fewn y FReM; pe byddai wedi cael ei mabwysiadu ar gyfer 2016-17, byddai wedi arwain at gynnydd o £2.34 miliwn mewn asedau a rhwymedigaethau.

## Nodyn 13: Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar gyfer eitemau a archebwyd ond nas derbyniwyd eto ar 31 Mawrth 2017 (31 Mawrth 2016: £10,000).

## Nodyn 14: Colledion a thaliadau arbennig

Nid oedd unrhyw daliadau arbennig na cholledion i'w datgelu yn 2016-17 (2015-16: dim).

## Nodyn 15: Deilliadau ac offerynnau ariannol

Mae IFRS 7 Datgeliadau Offerynnau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu gwybodaeth am bwysigrwydd offerynnau ariannol i endid, a natur a graddau'r risgiau sy'n deillio o'r offerynnau ariannol hynny, mewn termau ansoddol a meintiol. Oherwydd natur gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru a'r ffordd y caiff y gweithrediadau eu hariannu, nid yw'r swyddfa'n agored i lefel uchel o risg ariannol. Er y gall Swyddfa Archwilio Cymru fenthyca arian at ddibenion ariannu byrdymor, ni fu'n rhaid i'r swyddfa wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gall Swyddfa Archwilio Cymru hefyd fuddsoddi arian dros ben, a gwnaed hynny drwy gyfrif sy'n ennill llog dros nos yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r gweithgareddau hyn yn peri unrhyw risgiau ariannol sylweddol.

### Risg o hylifedd

O gofio natur ein busnes, ni oddefir lefel uchel o risg o ran rheoli ariannol.

Yn sgil yr awydd hwn am risg, a chefnogaeth Cronfa Gyfunol Cymru, nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risgiau sylweddol o ran hylifedd.

### Risg cyfradd llog

Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg cyfradd llog.

### Risg arian cyfred tramor

Mae'r graddau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn agored i risg arian cyfred tramor yn fach iawn gan mai dim ond pryniannau bach iawn o arian cyfred tramor a wna ymlaen llaw mewn perthynas â theithio tramor a chostau cysylltiedig eraill megis gwestai. Hefyd, caiff unrhyw ffioedd o waith neu secondiadau tramor eu trosi pan ddônt i law. Cofnodir unrhyw wahaniaethau cyfnewid yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn wrth gyfrifo'r gwarged gweithredu.

## Risg o ran credyd

Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, GIG Cymru a chyrff llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gleientiaid Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd o dan ddeddfwriaeth yn unol â Chynllun Ffioedd cymeradwy ac felly nid yw'n agored i unrhyw risgiau credyd perthnasol.

## Gwerthoedd teg

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwerthoedd llyfr a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2017 (31 Mawrth 2016: dim).

## Nodyn 16: Trafodion â phartïon cysylltiedig

Corff corfforaethol a sefydlwyd o dan statud yw Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi ymgymryd â thrafodion perthnasol â Chronfa Gyfunol Cymru a chyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel y'u datgelwyd yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth.

Mae Isobel Garner (Cadeirydd Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru) yn briod â Phrif Weithredwr cyngor lleol sy'n cael ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff y wybodaeth hon ei datgelu er mwyn sicrhau tryloywder er nad yw'n bodloni'r diffiniad o drafodyn parti cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, nid oedd unrhyw aelod arall o'r pwyllgorau anweithredol nac aelodau allweddol o staff na'u partïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol gyda'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gwybodaeth am bersonél rheoli allweddol wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth (tudalen 69).

## Note 17: Events after the reporting period

The Wales Audit Office works to annual funding arrangements by statute. Although voted funding has only been approved for nine months after the date of signing these statements, an Estimate for the 2018-19 financial year will be presented to the Finance Committee of the National Assembly in the autumn of 2017-18 and there is no reason to believe that funding will not be approved for that financial year.

# Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Ar sail croniadau** | Cydnabyddir effeithiau trafodion a digwyddiadau eraill wrth iddynt ddigwydd (ac nid wrth dderbyn neu dalu arian parod neu eitemau sy'n cyfateb i arian parod) ac fe'u cofnodir yn y cofnodion cyfrifyddu ac adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt. |
| **Amorteiddio** | Dosrannu cost ased sefydlog anniriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Asedau** | Rhywbeth y mae'r sefydliad yn berchen arno neu'n ei ddefnyddio ee, offer neu hawliau meddalwedd. |
| **Gwariant cyfalaf** | Gwariant ar asedau (sefydlog) anghyfredol. |
| **Asedau cyfredol** | Ased y disgwylir iddo gael ei drosi'n arian parod o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Rhwymedigaeth gyfredol** | Rhwymedigaeth y disgwylir iddi gael ei setlo o fewn y 12 mis nesaf. |
| **Incwm gohiriedig** | Yn cynrychioli incwm a filiwyd ond nas cydnabuwyd eto yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. |
| **Dibrisiant** | Dosrannu cost ased sefydlog diriaethol dros ei oes ddefnyddiol. |
| **Amcangyfrif** | Ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, yr Amcangyfrif blynyddol o Incwm a Threuliau a gymeradwyir mewn cyfarfod llawn drwy Gynnig Cyllidebol. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn cyflwyno adroddiad i ategu hyn. Cyfeirir ati hefyd fel y gyllideb gymeradwy. |
| **Asedau sefydlog** | Ased a ddelir gan sefydliad i'w ddefnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ar sail barhaus fel rhan o weithgareddau'r endid sy'n cyflwyno'r adroddiad. Ymhlith enghreifftiau ceir offer, cerbydau, tir ac adeiladau. |
| **Sail busnes hyfyw** | Caiff datganiadau ariannol eu paratoi ar y sail hon gan dybio y bydd y sefydliad yn parhau i weithredu hyd y gellir gweld. |
| **Ased sefydlog anniriaethol** | Ased, megis hawl, na ellir ei gyffwrdd. |
| **Prydlesu** | Caffael y defnydd o ased drwy gytundeb rhentu. |
| **Rhagdaliadau** | Swm a delir ymlaen llaw megis premiymau yswiriant neu flaendaliadau rhent. Caiff ei gydnabod i ddechrau fel ased, wedyn ei drosglwyddo fel traul yn ystod y cyfnod lle daw'r budd yn weithredol. |

| | |
|---|---|
| **Darpariaeth** | Atebolrwydd o ran amseru neu swm ansicr. |
| **Ecwiti trethdalwyr** | Asedau net y sefydliad. |
| **Symiau masnach taladwy** | Symiau sy'n ddyledus i'w talu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau. |
| **Symiau masnach derbyniadwy** | Symiau sy'n ddyledus gan gleientiaid. |
| **Ased sefydlog diriaethol** | Ased sefydlog (a elwir hefyd yn ased anghyfredol) â bodolaeth ffisegol. Fe'i defnyddir er mwyn gwahaniaethu rhwng ased sefydlog anniriaethol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y gronfa a ddefnyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gadw symiau y pleidleisir arnynt gan y Senedd a gaiff wedyn eu dyrannu drwy Gynnig Cyllidebol i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. |
| **Gwaith sy'n mynd rhagddo** | Gwaith a wnaed ac a gydnabuwyd fel incwm yn y cyfrifon nad anfonwyd anfoneb ar ei gyfer eto i'r cleientiaid. |

# ATODIADAU

# ATODIAD 1: RHAGLENNI GWAITH A GYFLWYNWYD YN YSTOD 2016-17

## Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth leol

### ARCHWILIO CYFRIFON

22 o awdurdodau unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

4 comisiynydd heddlu a throseddu

4 prif gwnstabl

8 cronfa bensiwn

Nifer o gyrff llywodraeth leol llai eraill gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr

Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o fwy na 740 o gynghorau tref a chymuned

### ARDYSTIO HAWLIADAU A FFURFLENNI GRANT

21 o gynlluniau gwerth bron i £3 biliwn ac yn cynnwys tua 360 o hawliadau unigol

### ASTUDIAETHAU PARHAUS

Trefniadau awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau anableddau dysgu yn strategol

Gwella llesiant drwy addasiadau i dai

Sut mae llywodraeth leol yn rheoli galw (gwasanaethau digartrefedd)

### ARCHWILIADAU AC ASESIADAU GWELLA

22 o awdurdodau unedol (gan gynnwys adolygiadau â thema o gydnerthedd ariannol a threfniadau llywodraethu)

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

### ASTUDIAETHAU A GWBLHAWYD NEU A GWBLHAWYD I RADDAU HELAETH

Datganiadau ariannol llywodraeth leol 2015-16

Rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned 2015-16

Y modd y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector

Cynllunio arbedion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru 2016-17

Trefniadau awdurdodau lleol i godi tâl am wasanaethau a chynhyrchu incwm

Diogelwch cymunedol yng Nghymru

## Gwaith archwilio a wnaed yng nghyrff y GIG

### ARCHWILIO CYFRIFON

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 o ymddiriedolaethau'r GIG
- Cyfrifon cryno bwrdd iechyd lleol
- Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG

### GWAITH ARCHWILIO PERFFORMIAD LLEOL

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 o ymddiriedolaethau'r GIG

### ASESIADAU STRWYTHUREDIG

- 7 bwrdd iechyd lleol
- 3 o ymddiriedolaethau'r GIG
- Crynodeb Cymru gyfan o adrodd ar berfformiad i fyrddau iechyd lleol

### ASTUDIAETHAU A GWBLHAWYD NEU A GWBLHAWYD I RADDAU HELAETH

- Contract Meddygon Ymgynghorol y GIG (astudiaeth ddilynol)
- Trefniadau comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys
- Gwasanaethau radioleg

### ASTUDIAETHAU PARHAUS

- Gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau
- Cynllunio rhyddhau cleifion o'r Ysbyty
- Gwasanaethau gofal sylfaenol

## Gwaith archwilio a wnaed mewn cyrff llywodraeth ganolog

### CYFRIFON LLYWODRAETH CYMRU

- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Cyfrif ardrethi annomestig
- Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru
- Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan
- Cymeradwyo taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru

### CYFRIFON CYRFF A NODDIR GAN LYWODRAETH CYMRU

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prif Gyfrif a Chyfrif Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Cymwysterau Cymru

### CYFRIFON CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

### CYFRIFON COMISIYNWYR, AROLYGWYR A RHEOLEIDDWYR

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

### CWMNÏAU LLYWODRAETH CYMRU

- Hybu Cig Cymru
- Dewis Gyrfa
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Sector Development Wales

## Gwaith archwilio a wnaed er mwyn i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ystyried

### ASTUDIAETHAU GWERTH AM ARIAN, ADRODDIADAU CRYNO NEU ARCHWILIADAU YMATEBOL A GWBLHAWYD

- Apwyntiadau dilynol i gleifion allanol – briffio Bwrdd Rhaglen Gofal Cynlluniedig y GIG
- Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat Ltd
- Rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol
- Y Fenter Twyll Genedlaethol 20145-15
- Buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau trên a seilwaith y rheilffyrdd
- Arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai, adolygiad o gynnydd – memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion drwy gonsortia addysg rhanbarthol (gwaith dilynol) – memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru
- Adolygiad o drefniadau llywodraethu Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Rheoli meddyginiaethau mewn gofal sylfaenol ac eilaidd
- Yr heriau llywodraethu a wynebir gan wasanaethau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru – papur trafod
- Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth golegau addysg bellach

### ASTUDIAETHAU GWERTH AM ARIAN PARHAUS

- Rhaglen addysg ac ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif
- Adolygiad o'r dirwedd caffael cyhoeddus
- Rheoli gwastraff (atal gwastraff)
- Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)
- Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (cynllunio tymor canolig integredig)
- Rhaglen Cefnogi Pobl
- Gwybodeg y GIG
- Mynediad i wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol
- Cyllid busnes
- Rheoli gwastraff (caffael seilwaith trin gwastraff)

### ADRODDIADAU CRYNO SYDD AR WAITH

- Trefniadau comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys

### ARCHWILIADAU YMATEBOL PARHAUS

- Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru i brosiect Cylchffordd Cymru
- Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Carmarthenshire Energy Ltd

## Gwaith arfer da

### SEMINARAU DYSGU AR Y CYD A GYNHALIWYD

- Lles archwilio mewnol yn y dyfodol
- Croesawu cwynion: cyfleoedd i wella eich sefydliad
- Dyfodol llywodraethu: gwneud penderfyniadau effeithiol ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol
- Ailgynllunio gwasanaethau cyhoeddus: pwysigrwydd strategol llwyfannau digidol
- Gwneud cau cyfrifon yn gynnar yn realiti
- Gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth i wella iechyd a llesiant
- Cynllunio gwasanaethau effeithiol ar gyfer defnyddwyr mynych
- Gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg

### CANLLAWIAU ARFER DA A DDARPARWYD

- Rhestr wirio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r trydydd sector ac yn gweithio gydag ef yn effeithiol
- Taflen i aelodau bwrdd y GIG i ategu eu gwaith craffu parhaus ar wasanaethau orthopedig

### GWEMINARAU DYSGU AR Y CYD A GYNHALIWYD

- Rheoli ariannol a llywodraethu mewn cynghorau cymuned
- Gwireddu buddiannau
- Cadw cofnodion: cywiro'r cofnod
- Data agored

### HWYLUSO DYSGU AR Y CYD A CHYMORTH CYMUNEDOL YN ALLANOL

- Ysgol haf Academi Wales
- Prifysgol Caerdydd
- Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (Cymru)
- Rhaglen Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau sy'n Agored i Niwed
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Arfer Da Cymru
- Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (Nesta)
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Sefydliad Data Agored
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Canolfan Newid Ymddygiad Cymru, Prifysgol Bangor
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Gweithgarwch ymgysylltu a chydweithio

### CYFLAWNI CYDGYSYLLTIEDIG

Menter Twyll Genedlaethol gydag asiantaethau archwilio eraill y DU

Gweithio gydag Estyn i gynnal arolygiadau dilynol o Gonsortia Gwella Addysg Rhanbarthol

Ardystio cyfrifon Cronfeydd Amaethyddol Ewrop yn flynyddol

Cynnal adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Llunio memorandwm dealltwriaeth gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

### AELODAETH O WEITHGORAU ALLANOL

EURORAI

Rhwydwaith Adroddiadau Integredig Sector Cyhoeddus y Cyngor Adroddiadau Integredig Rhyngwladol

Y Fforwm Archwilio Cyhoeddus

Bwrdd Cod Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC

Pwyllgor Archwilio Sector Cyhoeddus ICAEW

Paneli Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA a'r Heddlu a Gwasanaethau Tân

Menter Arolygu Cymru

Grŵp cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Arolygiaethau Diwygio Budd-dal Tai a Lles y DU

Grŵp Cynghori Sector Cyhoeddus y Cyngor Adroddiadau Ariannol

Cymryd rhan ym Mhrotocol Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

### GWAITH ARCHWILIO A GOMISIYNWYD

Ystod o archwiliadau o elusennau

Gweithredu fel Prif Archwilydd i gyfrifon Llywodraeth Anguilla, ac archwilio'r cyfrifon hynny

Grwpiau meincnodi rheoli gwastraff a gwastraff masnachol

### BOD YN SYLWEDYDD AR WEITHGORAU ALLANOL

Cyngor Partneriaeth Cymru

Bwrdd Rhaglen Weithredu Awdurdod Refeniw Cymru

Fforwm Treth Cymru y Gweinidog Cyllid

Bwrdd Fframwaith Arolygu Awdurdodau Lleol AGGCC

Bwrdd Uned Ddata Llywodraeth Leol

Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella GIG Cymru

Gweithgor Penodiadau Cyhoeddus

# ATODIAD 2: CYNNYDD A WNAED YN YSTOD Y FLWYDDYN TUAG AT GYFLAWNI EIN BLAENORIAETHAU TAIR BLYNEDD

## Gwaith archwilio llywodraeth leol

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cynnal asesiadau lleol a darparu trosolwg Cymru gyfan o allu corfforaethol cyrff llywodraeth leol i gyflawni rhaglenni newid a thrawsnewid | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Roedd ein rhaglen o archwiliadau perfformiad llywodraeth leol yn 2016-17 yn cynnwys tri adolygiad thematig a fydd yn llywio adroddiadau ar gyfer Cymru gyfan a gaiff eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn a hydref 2017. Roedd y tri adolygiad hyn yn ymwneud â threfniadau llywodraethu, trefniadau cynllunio ariannol a rhaglenni newid. |
| Integreiddio'n well y gwaith o gynllunio ac adrodd ar ein harchwiliadau lleol o gyfrifon a'n gwaith archwilio perfformiad, yn enwedig o ran archwilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu | 2016-2018 | Ar y trywydd cywir | Megis dechrau yr ydym ar y gwaith o ddatblygu a phrofi ein dull archwilio ac asesu mewn ymateb i ddyletswydd newydd yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r gwaith hwn yn debygol o arwain at ffyrdd newydd o archwilio effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a dull archwilio mwy integredig. Byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer cynllunio gwaith archwilio lleol ac adrodd arno wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu. |
| Paratoi, gan gynnwys drwy weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol, ar gyfer cyflwyno proses cau cyfrifon llywodraeth leol gyflymach | 2016-2018 | Ar y trywydd cywir | Cafodd barn ar gyfrifon tri awdurdod unedol ar gyfer 2015-16 ei darparu yn llawer cynharach na blynyddoedd blaenorol. Bydd y gwersi a ddysgir o waith y prosiect hwn yn ein helpu i gynllunio a chyflawni archwiliadau 2016-17. |
| Datblygu a threialu dull seiliedig ar ganlyniadau o ardystio grantiau ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Mae gwaith i ddatblygu ein dull newydd o weithredu wedi dod i ben a chafodd y dull ei dreialu yng Nghynghorau Wrecsam a Chastell-nedd Port Talbot yn ystod hydref 2016. Mae gwerthusiad o'r cynllun peilot wedi'i gwblhau a'r bwriad yw y bydd pob cyngor yn rhoi'r dull newydd ar waith dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf. |
| Darparu adroddiadau mwy cynhwysfawr ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu drwy ein fframwaith wedi'i ddiwygio ar gyfer archwilio cynghorau tref a chymuned | 2016 | Cwblhawyd | Gwnaethom ddilyn ein fframwaith wedi'i ddiwygio wrth archwilio cyfrifon 2015-16, a chyhoeddwyd ein hadroddiad cryno cyntaf ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ym mis Ionawr 2017. |

## Gwaith archwilio'r GIG

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cynnal asesiadau cymharol o drefniadau llywodraethu o fewn cyrff y GIG gyda'r nod o nodi a rhannu arfer da mewn meysydd penodol sydd wedi bod yn anodd ac yn broblematig i gyrff y GIG | 2016-2017 | Cwblhawyd | Drwy'r gwaith a wnaethom ar gyfer Asesiad Strwythuredig 2016 yng nghyrff y GIG, lluniwyd asesiadau cymharol o Fframweithiau Sicrwydd Byrddau, trefniadau cymeradwyo/monitro cynlluniau tymor canolig integredig, a chynnwys Adroddiadau Cyllid Dewiswyd yr ardaloedd i'w cymharu yn sgil ymgysylltu â grŵp Ysgrifenyddiaeth Bwrdd Cymru gyfan a chyrff unigol y GIG. |
| Cymryd rhan yn llawn yn y protocol ymyriad uwchgyfeirio ar gyfer nodi ac ymateb i faterion difrifol sy'n amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth, ansawdd a diogelwch gofal ac effeithiolrwydd trefniadol ar draws GIG Cymru | 2016-2019 | Cwblhawyd | Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i gymryd rhan yn llawn mewn cyfarfodydd uwchgyfeirio ac ymyrryd sy'n ein cynnwys ni, swyddogion o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau hyn bellach yn sefydledig ac yn rhan o'n prosesau ymgysylltu arferol â Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. |
| Cyhoeddi adolygiad archwilio o weithrediad cychwynnol cynlluniau cyflenwi integredig tair blynedd y GIG | 2016-2017 | Ar y trywydd cywir | Rydym wedi cwblhau'r gwaith maes ar yr adolygiad hwn a chaiff adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ei gyhoeddi cyn toriad yr haf 2017. Gwnaethom ganolbwyntio'n bennaf ar fuddiannau ariannol gwaith cynllunio tymor canolig integredig a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol i Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, a gwnaethom hefyd ystyried materion cynllunio ehangach sy'n ymwneud â chysylltu cynlluniau ariannol a gwasanaeth. |

## Gwaith archwilio llywodraeth ganolog

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiad trosolwg blynyddol ar ganlyniadau gwaith archwilio a gwblhawyd yn y sector llywodraeth ganolog | 2016 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Cwblhawyd | Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad trosolwg blynyddol cyntaf ar ganlyniadau gwaith archwilio a wnaed o fewn y sector llywodraeth ganolog ar ddechrau gwanwyn 2017. |
| Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, archwilio'r potensial i gynnal rhaglen gylchol o adolygiadau archwilio llywodraethu a pherfformiad ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi | 2016-2018 | Ar y trywydd cywir | Gwneir gwaith ar y flaenoriaeth hon ar y cyd â'n gwaith i ddatblygu dull yr Archwilydd Cyffredinol o gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Rhoi sylwebaeth archwilio i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch pa mor barod ydynt am y pwerau ariannol a gyflwynir ac ar gynnydd a wneir drwy'r camau cynllunio a gweithredu | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adolygiad o barodrwydd cychwynnol yn ystod hydref 2016, a rhoesom dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid ar ein canfyddiadau ym mis Mawrth 2017. Bwriedir cyhoeddi adolygiad arall ym mis Medi 2017, cyn cyflwyno pwerau ariannol ym mis Ebrill 2018. |
| Gwerthuso a pharatoi ar gyfer y goblygiadau cyfrifo ac archwilio yn sgil gweithredu pwerau ariannol Cymru | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddogion o Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar bob agwedd ar ddatganoli cyllidol i Gymru, ac yn datblygu ein hymatebion i oblygiadau penderfyniadau polisi Gweinidogol a deddfwriaeth gysylltiedig y DU/Cymru wrth iddynt ddod i'r amlwg. |

## Gwaith archwilio i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Cynyddu effaith ein hadroddiadau cyhoeddus, a'r diddordeb ynddynt, drwy wella dyluniad ein hadroddiadau ac ehangu ein sianelau cyfathrebu | 2016-2017 | Cwblhawyd | Yn ystod 2016-17, rydym wedi ymdrechu i godi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd cyfleu canfyddiadau archwilio mewn ffordd fwy cryno ag effaith weledol fwy, ynghyd â darparu hyfforddiant iddynt ar hynny. Yn arbennig, mae hyn wedi helpu i sicrhau y gall ein cynnwys dylunio gael ei addasu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cael ein hachredu am hygyrchedd ein gwefan ac, yn gynyddol, rydym yn gweld bod y cyfryngau yn gosod ffeithluniau o'n hadroddiadau ar eu sianelau ar-lein. |
| Gwella'r gwaith yr ydym yn ei wneud sy'n archwilio systemau cyfan a'r cysylltiadau rhwng darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig | 2016-2018 | Ar y trywydd cywir | Rydym wedi mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o adolygu trefniadau darparu addasiadau tai a chyflawni dyletswyddau cynllunio drwy gysoni'r amserlenni ar gyfer ceisiadau gwybodaeth a data a chynnal cydgyfweliadau gwaith maes i nodi materion ar y rhyngwyneb rhwng tai ac iechyd a sicrhau ein bod yn bwydo negeseuon cyson yn ôl i gyrff y GIG, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Rydym wrthi'n ymgynghori ar bynciau yn y dyfodol sy'n archwilio systemau cyfan ar draws darparwyr gwasanaethau. |
| Yn dilyn etholiadau Cynulliad 2016, meithrin perthynas adeiladol â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd a nodi ffyrdd o gefnogi ei waith caffael ymhellach | 2016-2018 | Cwblhawyd | Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd wedi hen ennill ei blwyf. Yn ystod 2016-17, roedd yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi:<br>• cymryd rhan yn nigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid y Pwyllgor;<br>• rhoi hyfforddiant sefydlu i aelodau'r Pwyllgor;<br>• paratoi deunydd briffio manwl ar ein rhaglen waith; a<br>• rhoi cyngor i'r Pwyllgor fel rhan o'r adolygiad sydd ar waith o'i ddulliau gwaith, gan gynnwys ffyrdd gwahanol y gallai ein staff gefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor. |

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth ymhlith Pwyllgorau'r Cynulliad ynghylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys cyfrannu at ymsefydlu Aelodau Cynulliad newydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016 | 2016-2017 | Cwblhawyd | Cyfrannodd staff Swyddfa Archwilio Cymru at y gwaith o baratoi briff Arolygu Cymru i Aelodau'r Cynulliad a'u cynghorwyr ar rôl a chylch gwaith y pedwar partner. Mae'r memorandwm a baratowyd gennym ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2016 wedi'i rannu â thimau cymorth ehangach y pwyllgor, ac mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi cysylltu'n bersonol â chlercod ac ymchwilwyr er mwyn meithrin cydberthnasau ar ôl sefydlu'r strwythur pwyllgor newydd ac wrth i'r pwyllgorau bennu eu rhaglenni gwaith eu hunain. |

## Gwaith arfer da

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Annog gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy sicrhau o leiaf 50 o addewidion i weithredu o raglen flynyddol o 12 digwyddiad dysgu ar y cyd, a monitro'r broses o roi'r addewidion hynny ar waith | 2016 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Gwnaethom gofnodi addewidion i weithredu arnynt ar ddiwedd pob un o'r digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynhaliwyd yn 2016-17. Gwnaethom hefyd ymestyn ein cynllun peilot 'Treialon Coffi ar Hap', lle rydym yn hwyluso sgyrsiau dilynol rhwng unigolion ynghylch sut maent yn gweithredu eu haddewidion. |
| Datblygu rhaglenni gwaith arfer da ar heriau allweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys llywodraethu, cynllunio hirdymor, trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata a thechnoleg gwybodaeth, a chyni | 2016-17 | Cwblhawyd | Drwy ein gwaith arfer da yn 2016-17, rhoddwyd sylw arbennig i godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o egwyddorion a goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016, tra'n sicrhau bod heriau allweddol eraill sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hadlewyrchu hefyd. |
| Buddsoddi i ddatblygu a chefnogi 'cymunedau buddiant' hunangynhaliol ymhlith cyrff cyhoeddus er mwyn adeiladu ar y momentwm a grëwyd gan ein gweithgarwch arfer da a rhannu dysgu | 2016 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Drwy ein gwaith ar y Gwyliau Newid Ymddygiad, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Phrifysgolion Bangor, Abertawe ac Aberystwyth, llwyddwyd i hyrwyddo sefydlu rhwydweithiau newydd, yn enwedig rhai sy'n cynnwys y sector academaidd. Aethom ati hefyd yn 2016-17 i sefydlu cymunedau digidol newydd, gan weithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. |
| Rhoi cyfleoedd i staff o bob rhan o'r sefydliad rannu a datblygu sgiliau drwy gymryd rhan mewn gwaith arfer da a gweithgareddau dysgu ar y cyd | 2016 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Yn ystod y flwyddyn, bu staff o'n timau archwilio ariannol, archwilio perfformiad a galluogi corfforaethol ynghlwm wrth gyflawni gweithgareddau dysgu ar y cyd, gan gynnwys mewn perthynas ag archwiliadau mewnol, cau cyfrifon llywodraeth leol yn gyflymach, ymdrin â chwynion digidol a newid ymddygiad. |

## Gweithgarwch ymgysylltu a chydweithio

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Ymgorffori trefniadau i wella'r rheolaeth ar ohebiaeth gan y cyhoedd neu bartïon eraill â diddordeb am faterion sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol | 2016 | Cwblhawyd | Rydym bellach wedi ymgorffori gwell trefniadau i reoli gohebiaeth. Yn arbennig, yn ddiweddar rydym wedi gwella ein trefniadau adrodd mewnol er mwyn sicrhau bod uwch reolwyr yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd a wnaed ar ohebiaeth fyw ac amseroldeb ein hymatebion. Gwnaethom adrodd ar ein perfformiad yn y maes hwn yn 2016-17 yn y Datganiad Llywodraethu. |
| Defnyddio canlyniadau ein hadborth gan randdeiliaid er mwyn meithrin ymhellach ein dealltwriaeth o sectorau a'n perthynas â chyrff archwiliedig ymhellach, er mwyn creu sail well ar gyfer ein rhaglen waith a chyfrannu at ddatblygiadau a gwelliannau ar draws y sector cyhoeddus | 2016 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Cyfarfu'r Archwilydd Cyffredinol â sawl unigolyn er mwyn ystyried a thrafod yn fanylach y materion a godwyd yn eu hymatebion i'n harolwg rhanddeiliaid ar ddechrau 2016-17. Roedd ein digwyddiad Llunio Atebolrwydd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Tachwedd hefyd wedi ysgogi llawer o adborth gan ddirprwyon uwch o bob rhan o'r sector cyhoeddus ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein timau archwilio wrthi'n ystyried yr adborth hwn wrth i ni barhau i weithio ar ein dull archwilio newydd dros y misoedd nesaf. |
| Ymgysylltu'n well â'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn asesu ein perfformiad a mesur effaith ein gwaith a'n llwyddiant | 2016 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Yn sgil llwyddiant ein presenoldeb yn y Sioe Frenhinol y llynedd, trefnwyd stondin arall yno ym mis Gorffennaf 2016. Rhannwyd y stondin ag Arolygu Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n gwaith a chynyddu'r ymgysylltu ag ef. Ym mis Tachwedd 2016, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Bwrdd dderbyniad ar y cyd yn Abergele i randdeiliaid yn y Gogledd. |

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Annog ystod ehangach o gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ac ehangu'r wybodaeth a ddefnyddir yn yr ymarfer paru data | 2016 | Cwblhawyd | Dechreuodd ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol ym mis Hydref 2016. Cyn yr ymarfer hwnnw, gwnaethom ysgrifennu at 34 o gyrff eraill sy'n derbyn arian cyhoeddus (cyrff a noddir, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a phrifysgolion) yn eu gwahodd i gymryd rhan, gydag ymateb cadarnhaol gan wyth o'r cyrff hynny. Mae'r wybodaeth i'w defnyddio yn yr ymarfer paru data bellach wedi'i hehangu i gynnwys rhestr aros am dai a data Tŷ'r Cwmnïau. |
| Gwella ymhellach effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru drwy weithio'n agos gydag Arolygu Cymru i gyflawni arferion gwaith mwy effeithlon a sicrhau mwy o effaith drwy gydweithio a rhannu cudd-wybodaeth ac adnoddau | 2016 a phob blwyddyn ar ôl hynny | Ar y trywydd cywir | Drwy gydol y flwyddyn, mae partneriaid Arolygu Cymru wedi cydweithio â ni i friffio Aelodau Cynulliad newydd a dangos rôl a gwaith y pedwar sefydliad dan faner Arolygu Cymru yn y Sioe Frenhinol. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith cwmpasu ar yr adolygiad thematig cenedlaethol cyntaf i'w gynnal ar y cyd â phartneriaid Arolygu Cymru. |

## Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Gweithredu rhaglen waith i hwyluso'r broses strategol o drawsnewid archwilio gyda ffocws cychwynnol ar wneud defnydd mwy effeithiol o ddata a thechnoleg gwybodaeth. | 2016 | Ar y trywydd cywir | Sefydlwyd tîm prosiect trawsnewid strategol yn ystod haf 2016. Dechreuodd y tîm weithio ym mis Medi 2016 a chyflwynodd adroddiad interim i'r Bwrdd ym mis Chwefror 2017. Mae disgwyl i'r tîm gyflwyno ei adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2017. |
| Atgyfnerthu'r gallu i arwain, drwy raglen datblygu arweinwyr a'r defnydd parhaus o adolygiadau cylch cyfan o berfformiad uwch aelodau o staff ac adolygiadau ategol o effeithiolrwydd y Bwrdd | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Yn dilyn ymarfer tendro, dewiswyd Coleg y Gwasanaeth Sifil i weithio gydag Uwch Dîm Arwain Swyddfa Archwilio Cymru ar atgyfnerthu'r gallu i arwain. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf ym mis Hydref 2016 ac mae rhagor o sesiynau wedi'u trefnu yn 2017-18.<br>Parhau i ganolbwyntio ar symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau ac egluro gwerthoedd/ymddygiad disgwyliadwy i bawb. Tua diwedd 2016, defnyddiwyd grwpiau ffocws staff i ddatblygu set o werthoedd a ffyrdd o ymddwyn cytûn. |
| Atgyfnerthu ein trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys drwy waith cynllunio olyniaeth mwy effeithiol a gwaith modelu senarios galw yn y dyfodol manylach | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi gwneud gwaith modelu helaeth ar oblygiadau'r ffactorau o ran cynllunio'r gweithlu yr ystyriwn y cânt yr effaith fwyaf ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith dros y tair i bum mlynedd nesaf. Yn ogystal, ym mis Mehefin 2016, cymeradwyodd y Bwrdd egwyddorion sydd bellach yn sail i'n prosesau cynllunio'r gweithlu. |
| Monitro datblygiad ein trefniadau llywodraethu unigryw gan gydweithio â chyrff archwilio eraill y DU, gyda golwg ar rannu gwybodaeth, profiad a'r hyn yr ydym yn ei ddysgu | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi cynllun gweithredu ar waith a ddatblygwyd yn sgil gwerthusiad annibynnol o'i heffeithiolrwydd a gwblhawyd ym mis Medi 2016. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd y Bwrdd yn ystyried y ffordd orau o fesur ei effaith yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd yn gweithio gyda rheolwyr i gofnodi ei gynnydd hyd yma, rhannu gwersi a ddysgwyd, tynnu sylw at heriau a disgrifio uchelgeisiau i'r dyfodol. |

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Gwneud defnydd mwy effeithiol o feincnodau a chymariaethau allanol, gan gydweithio â chyrff archwilio eraill y DU, er mwyn asesu ein perfformiad a mesur ein llwyddiant a gwella ein heffaith | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Drwy gydol 2016-17, gwnaethom weithio gydag asiantaethau archwilio eraill y DU i ddatblygu ymhellach ein defnydd o feincnodau i asesu perfformiad ein gwasanaethau corfforaethol. Hefyd, dyfarnwyd contract i ymgynghorydd allanol gynnal asesiad o'r ffordd rydym yn mesur effaith ein gwaith ac yn adrodd arni, a sut y gallem gynyddu ein heffaith ymhellach. |

## Ein defnydd o adnoddau

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Gwneud gwell defnydd o ddulliau rheoli technoleg a gwybodaeth er mwyn rhesymoli a symleiddio ein systemau a'n prosesau busnes, drwy weithredu cynllun TGCh tair blynedd treigl | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Yn gynnar yn y flwyddyn, gwnaethom adolygu a diweddaru ein cynllun TGCh tair blynedd; cafodd crynodeb o'r cynllun diwygiedig ei gyhoeddi yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2017-18, a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddarach gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y cyllid a gymeradwywyd yn cefnogi amrywiaeth o waith, gan gynnwys ehangu ein defnydd o'r cwmwl a fideogynadledda gliniadur a bwrdd gwaith, a gosod system ffôn a switsfwrdd newydd. |
| Ehangu a gwella ein rhaglen bresennol i raddedigion, gan gynnwys drwy sefydlu rhaglen ar y cyd a fydd yn galluogi ein hyfforddeion i dreulio amser yn gweithio yn y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru | 2016-2018 | Ar y trywydd cywir | Dechreuodd ein secondiadau cyntaf o dan ein trefniadau ehangach newydd ar ddiwedd 2016-17. |
| Cadw gafael gadarn ar gostau, ceisio sicrhau mwy o effeithlonrwydd a chadw ffioedd mor isel ag sy'n bosibl | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Cyflwynwyd cynllun teithio newydd ar 1 Ebrill 2016, a fydd yn cyflawni arbedion o tua £125,000 y flwyddyn yn dilyn cyfnod pontio. Mae ein Cynllun Ffioedd cymeradwy ar gyfer 2017-18 yn rhewi ein cyfraddau ffioedd ar sail arian parod, a chaiff hyn ei gefnogi'n eang. Mae arbedion a wnaed yn sgil swyddi gwag yn 2016-17 yn cael eu defnyddio i ariannu cynllun diswyddo gwirfoddol a fydd yn lleihau costau staff yn y dyfodol yn unol ag egwyddorion cynllunio'r gweithlu. |
| Datblygu cynigion i symleiddio a gwella costeffeithiolrwydd trefniadau cyllid Swyddfa Archwilio Cymru, i'w hystyried gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad | 2016-2017 | Ar y trywydd cywir | Gwnaethom waith yn 2016-17 i fesur effaith y gyfundrefn bresennol, o ran cost prosesau gweinyddol angenrheidiol, a sgil-effeithiau ymddygiadol, ac rydym wrthi nawr yn cwblhau ein cynigion drafft. Byddwn yn ymgynghori'n fuan â rhanddeiliaid ar ein cynigion ac yn cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw i'r Pwyllgor Cyllid. |

| Blaenoriaethau arfaethedig | Pryd | Cynnydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Gwneud gwell defnydd o'n hystad er mwyn lleihau costau a helpu i gynnal archwiliadau hyblyg | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Gwnaethom gwblhau'r broses o adleoli ein swyddfa yn y gogledd ym mis Mehefin 2016. Bydd hyn yn arbed arian i ni, ynghyd â gwella ein perfformiad amgylcheddol a byddwn yn gwneud defnydd mwy effeithlon o ofod swyddfa. Rydym yn parhau i ystyried opsiynau eraill i wneud y defnydd gorau o weddill ein hystad. |
| Dangos ein cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol drwy ein gwaith i:<br>• wella stiwardiaeth amgylcheddol;<br>• hyrwyddo lles ein staff;<br>• hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu a meithrin perthnasoedd da; a<br>• hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chyrraedd safonau newydd y Gymraeg | 2016-2019 | Ar y trywydd cywir | Mae sylwadau ar y cynnydd rydym wedi'i wneud yn y meysydd hyn i'w gweld yn adran Dadansoddi perfformiad yr adroddiad hwn. |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru